



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020–2024

Nodau, Amcanion a Champau  
Gweithredu ym maes  
Cydraddoldeb

# Cynnwys

- 03** Rhagair y Gweinidog
- 04** Cyflwyniad – Trosolwg o'r Cynllun
- 07** Pennod 1: Cydraddoldeb, Hawliau Dynol a'r Gyfraith yng Nghymru
- 11** Pennod 2: Beth mae'r dystiolaeth o ran cydraddoldeb yn ei ddweud wrthym
- 14** Pennod 3: Sut y cafodd y cynllun hwn ei ddatblygu
  
- 17** Atodiad 1 – Tabl Nodau, Amcanion a Chamau Gweithredu Allweddol ym maes Cydraddoldeb
- 39** Atodiad 2 – Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

# Rhagair y Gweinidog

**Mae Cydraddoldeb a Hawliau Dynol bob amser wedi bod wrth wraidd gwaith Llywodraeth Cymru a'n gweledigaeth ar gyfer Cymru. Rydym yn credu y dylid trin pawb yn deg, yn enwedig y sawl sydd wedi'u hymyleiddio. Anelwn at greu Cymru fwy cyfartal – gwlad sy'n galluogi pawb i gael gafael ar wasanaethau, sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, ac sy'n ceisio sicrhau canlyniadau cyfartal tecach i'n holl ddinasyddion, nawr ac yn y dyfodol.**

Mae'r nodau hyn yn bwysicach nag erioed ar hyn o bryd. Mae'r bwloch rhwng y bobl gyfoethocaf a thlotaf yn ein cymdeithas yn dal i dyfu, ac mae llawer o leisiau eithafol yn camfanteisio ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn hyrwyddo eu hagenda'u o anoddefgarwch a chasineb tuag at bobl eraill. Mae blynyddoedd o gyni a'r rhaniadau a welwyd am fod y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd yn bygwth tanseilio ein gwerthoedd a rennir a rhannu ein cymunedau.

Rhaid i ni wneud pob ymdrech i ddangos ein hymrwymiad at gydraddoldeb a bod yn wylidwros er mwyn gwarchod y cyfreithiau a'r cytuniadau rhyngwladol sy'n diogelu pob un ohonom. Ein nod yw sicrhau canlyniadau cyfartal i bawb, nid dim ond yr ychydig rai. Rhaid i ni gefnogi'r grwpiau a'r unigolion hynny â nodweddion gwarchoddedig sy'n parhau i wynebu'r risg fwyaf o wahaniaethu a chael eu trin yn annheg sydd, yn ei dro, yn arwain at ganlyniadau anghyfartal iawn mewn bywyd. Gall yr heriau fod yn fwy byth pan fydd gwahanol fathau o wahaniaethu ac anfantais yn gorgyffwrdd – er enghraifft, bod unigolion yn wynebu hiliaeth a rhywiaeth ar y cyd, sef rhyngblethedd.

Ni allwn laesu dwylo. Fel Llywodraeth rydym yn gweithio i ddatblygu cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae ein **Hadolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol** wedi creu llwybr i ni fynd i'r afael â'r prif faterion, ac rydym wedi comisiynu ymchwil i opsiynau ehangach i atgyfnerthu a datblygu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Er nad yw tloidi ynnddo'i hun yn nodwedd warchoddedig, mae'r anghydraddoldeb sy'n deillio o fod ar incwm isel yn rhywbeth rydym yn mynd i'r afael ag ef. Dyma pam rydym yn bwriadu cychwyn rhannau 1 a 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sef **"y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol,"** a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i lawer o gyrff cyhoeddus yng Nghymru roi sylw priodol i effeithiau economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol

Mae hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant yn rhan annatod o holl nodweddion Gwaith Teg a nodir yn **Gwaith Teg Cymru**. Mae economi Gymreig ffyniannus lle gall pawb ffynnu, a lle na chaiff neb ei adael ar ôl, yn hollbwysig i wireddu ein gweledigaeth o Gymru fodern, drugarog, a mwy cyfartal. Mae trefniadau partneriaeth gymdeithasol symlach a chryfach wedi'u hategu gan ddeddfwriaeth yn allweddol i'n huchelgais i gyflawni canlyniadau mwy cyfartal; lle mae gweithwyr o bob sector o fewn economi Cymru yn cael budd o dwf economaidd.

Bydd yr holl ddatblygiadau pwysig hyn yn cael effaith drwy gydol cyfnod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn a thu hwnt.



Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein nodau a'n hamcanion ym maes cydraddoldeb am y pedair blynedd nesaf, ynghyd â'r prif gamau i'w cymryd er mwyn cyflawni'r amcanion hynny. Bydd y cynllun hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i gyd i weithio'n agos gyda chyrff eraill a phartneriaid allweddol er mwyn cyflawni'r nodau hynny. Yn arbennig, ystyriwn fod y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn bartner allweddol o ran datblygu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, gan weithredu fel cyfaill beimiadol, yn ogystal â chyflawni rôl reoleiddiol. Mae ein dull gweithredu yn seiliedig i raddau helaeth ar ei adroddiad pwysig, sef *A yw Cymru'n Decach? 2018*.

*Jane Hutt*

## Jane Hutt AC

Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, â chyfrifoldeb portffolio am Gydraddoldebau

# Cyflwyniad – Trosolwg o'r Cynllun

**Dyma Gynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020–2024. Yn y ddogfen cewch benodau byr sy'n egluro:**

- Sail gyfreithiol y cynllun;
- Y brif dystiolaeth yn ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru sydd wedi dylanwadu ar y cynllun hwn. Mae'r bennod hon yn dibynnu'n fawr ar A yw Cymru'n Decach? 2018, a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol;
- Sut y cafodd y cynllun ei ddatblygu drwy ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol a dinasyddion Cymru.

Wrth wraidd y cynllun mae tair prif elfen: Nodau, Amcanion a Chamau Gweithredu.

**1 Nodau Hirdymor.** Mae a wnelo'r nodau hyn ag atgyfnerthu a datblygu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Disgwyliwn iddynt fod yn berthnasol y tu hwnt i'r cyfnod a gwmpesir gan y cynllun. Gallant gael eu rhannu gan sefydliadau eraill, gan gynnwys cyrff cyhoeddus yng Nghymru, er mwyn cefnogi'r gwaith o gydweithredu i ddatblygu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Er ein bod wedi nodi amcanion i fodloni ein gofyniad statudol i wneud hynny o dan Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, cydnabyddwn faint yr her o ran mynd i'r afael â phroblemau sydd wedi gwreiddio'n ddwfn ac sydd weithiau'n systemig sy'n cael effaith andwyol ar y rhai â nodweddion gwarchoddedig. Mae nodau hirdymor, sy'n ymestyn y tu hwnt i gyfnod y cynllun penodol hwn, yn golygu bod modd cysylltu ein cynlluniau a ddatblygir dros amser er mwyn mynd i'r afael â nhw.

**2** Ar gyfer pob un o'r nodau hirdymor hyn, ceir **Amcan Cydraddoldeb ar gyfer 2020–2024**. Mae gan yr amcanion hyn gysylltiad agosach na'r nodau hirdymor â rôl a phwerau Llywodraeth Cymru. Maent yn ofyniad statudol ac yn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei Dyletswyddau Cydraddoldeb o ran y Sector Cyhoeddus. Bydd yr amcanion yn canolbwyntio ar yr hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni dros bedair blynedd y cynllun hwn.

**3** Yn sail i bob un o'r Amcanion hyn mae nifer o **Gamau Gweithredu** mesuradwy sy'n dangos sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei hamcanion. Mae'n bwysig iawn cydnabod **nad** yw'r camau a nodir yn y cynllun hwn yn rhestr gynhwysfawr o'r holl bethau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu gwneud dros y pedair blynedd nesaf er mwyn cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb. Enghreifftiau ydynt a ddewiswyd i dynnu sylw at faterion allweddol

mewn perthynas â phob amcan, a gallant fod yn enghreifftiol yn unig. Cymerir rhai o'r camau tra bod y cynllun yn weithredol, a chaiff camau eraill, nas nodir yma, eu datblygu yn ystod y cyfnod hwn.

Caiff y tair elfen hyn eu nodi yn Atodiad 1. Bydd ein camau gweithredu'n benodol i grwpiau gwarchoddedig pan fydd y dystiolaeth yn dweud wrthym fod angen cymryd camau wedi'u targedu. Nid yw'r rhestrau hyn o gamau gweithredu yn gynhwysfawr a byddant yn cynnwys rhai sydd naill ai'n enghreifftiol neu sydd â'r effaith bosibl fwyaf sylweddol wrth helpu i gyflawni'r amcan cyffredinol a'r nod hirdymor. Caiff mwy o gamau na'r rhai a nodir yma eu datblygu gan Lywodraeth Cymru ac efallai yr adroddir arnynt drwy'r broses flynyddol o adrodd ar gydraddoldeb.

Rydym yn cydnabod bod gan lawer o bobl brofiad o nodweddion gwarchoddedig sy'n gorgyffwrdd. Ymysg yr enghreifftiau mae plant anabl; pobl LGBT hyn; menywod Mwslimaidd. Anaml y caiff person ei ddiffinio gan un nodwedd. Felly, rydym wedi datblygu Amcanion Cydraddoldeb "rhyngblethol", h.y. rhai sy'n ceisio dileu gwahaniaethu ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal, ac yn meithrin cydberthnasau da yn y ffyrdd mwyaf cynhwysol posibl, yn ogystal â bod yn gyson â meysydd penodol 'A yw Cymru'n Decach?'. Yn yr un modd, mae'r nodau ac amcanion eu hunain yn rhai trawsbynciol ac yn rhyngddibynnol.

## Amcanion Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru

**Nod Hirdymor 1:** Dileu anghydraddoldeb sy'n deillio o dlodi.

**Amcan Cydraddoldeb 1:** Byddwn yn cymryd camau i leihau'r risg o wynebu tlodi, gan wella canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf ac sy'n byw ar aelwydydd incwm isel.

**Nod Hirdymor 2:** Mesurau amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol cryf a blaengar i bawb yng Nghymru.

**Amcan Cydraddoldeb 2:** Byddwn yn cymryd camau i nodi a defnyddio pob sbardun posibl i amddiffyn, atgyfnerthu a datblygu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

**Nod Hirdymor 3:** Bydd anghenion a hawliau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig yn flaenllaw yn y broses o gynllunio a darparu pob gwasanaeth cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.

**Amcan Cydraddoldeb 3:** Byddwn yn cymryd camau yn seiliedig ar wella canlyniadau cyfartal a dileu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag gwreiddio eu potensial. Byddwn yn ymgorffori'r Model Cymdeithasol o Anabledd er mwyn creu polisiau a gwasanaethau gwell.

**Nod Hirdymor 4:** Bydd Cymru yn arwain y byd o ran cydraddoldeb rhywiol. Mae Cymru sy'n gyfartal o ran rhywedd yn golygu rhannu pŵer, adnoddau a dylanwad yn gyfartal rhwng pob menyw, dyn a pherson anneuaidd.

**Amcan Cydraddoldeb 4:** Byddwn yn cyflawni'r amcanion a nodir yng ngham un y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a'i leihau, gan annog sefydliadau cyhoeddus datganoledig eraill yng Nghymru i wneud yr un peth.

**Nod Hirdymor 5:** Dileu gwahaniaethu, erledigaeth, difriö, aflonyddwch, troseddau casineb a bwlio sy'n seiliedig ar nodweddion gwarchoddedig.

**Amcan Cydraddoldeb 5:** Byddwn yn cymryd camau i atal gwahaniaethu, erledigaeth, aflonyddwch, difriö, troseddau casineb a/neu fwlio yn erbyn pobl am fod ganddynt un neu ragor o nodweddion gwarchoddedig. Byddwn yn sicrhau bod dioddefwyr yn gallu cael gafael ar gyngor a chymorth er mwyn eu helpu i fyw heb ofn a diogelu eu llesiant.

**Nod Hirdymor 6:** Cymru o gymunedau cydlynus sy'n gydnerth, yn deg ac yn gynhwysol.

**Amcan Cydraddoldeb 6:** Byddwn yn adeiladu ar ein polisiau a'n hymyriadau presennol ac yn datblygu fframwaith monitro i fesur cynnydd tuag at gydlyniant cymunedol a meithrin cysylltiadau da.

**Nod Hirdymor 7:** Gall pawb yng Nghymru gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol, bywyd cyhoeddus a bywyd pob dydd.

**Amcan Cydraddoldeb 7:** Erbyn 2024, byddwn wedi cynyddu amrywiaeth y rheini sy'n gwneud penderfyniadau mewn bywyd cyhoeddus a phenodiadau cyhoeddus, gan nodi meysydd lle mae angen cymryd rhagor o gamau gweithredu er mwyn sicrhau cydbwysedd gwell o amrywiaeth ymysg y rheini sy'n gwneud penderfyniadau a nodi ac ymchwilio i ddulliau o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

**Nod Hirdymor 8:** Bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn arwain y ffordd fel sefydliadau a chyflogwyr cynhwysol ac amrywiol sy'n dangos esiampl.

**Amcan Cydraddoldeb 8:** Erbyn 2024 bydd Llywodraeth Cymru yn gyflogwr sy'n dangos esiampl, gan gynyddu amrywiaeth drwy: fynd i'r afael yn arbennig â thangynrychiolaeth pobl anabl a phobl o leiafrifoedd ethnig ar bob lefel o'r sefydliad, a thangynrychiolaeth merched ar lefelau uwch; dileu rhwystrau; a galluogi staff o bob cefndir i gyflawni eu potensial, gan sicrhau cyfle cyfartal i bawb.

## Cysylltu Amcanion â Chamau Gweithredu

Ar gyfer pob un o'r amcanion uchod, mae nifer bach o gamau gweithredu allweddol wedi cael eu nodi er mwyn dangos y ffordd y caiff yr amcan ei gyflawni rhwng 2020 a 2024. Mae'r camau gweithredu hyn wedi eu trefnu mewn perthynas â 6 maes *A yw Cymru'n Decach? 2018*.

### Sef:

- Addysg
- Gwaith
- Safonau byw
- Iechyd
- Cyfiawnder a Diogelwch Personol
- Cymryd rhan.

Gall y camau gweithredu o dan bob amcan ymwneud â mwy nag un o'r meysydd hyn. Ar gyfer pob cam gweithredu, rhoddir esboniad yn dangos y ffordd y bydd yn cyfrannu at gyflawni'r amcan dan sylw, sut y caiff ei fesur a phryd y caiff ei gyflawni.

Cafodd y camau hyn eu datblygu yn ystod yr ymgynghoriad ac ar ôl hynny, drwy ymgysylltu ar draws Llywodraeth Cymru ac â rhanddeiliaid. Mae'r camau sy'n ategu'r amcanion a'r nodau hirdymor yn Atodiad 1.

Nid yw'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol terfynol yn cynnwys **holl** weithgarwch Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phob amcan; bydd y ffocws ar weithgarwch enghreifftiol allweddol sy'n gysylltiedig â meysydd *A yw Cymru'n Decach? Disgwylir i ystod eang o weithgareddau eraill a gwaith datblygu polisi ehangach gyda Llywodraeth Cymru hefyd gyfrannu at gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol yn ystod oes y cynllun. Nodir rhai ohonynt yn Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol Llywodraeth Cymru.*

Nid yw'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn sefyll ar ei ben ei hun. Er mai hwn yw prif gynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau mwy o gydraddoldeb yng Nghymru, fe'i hategir gan amrywiaeth o gynlluniau pwysig eraill sydd hefyd yn nodi ac yn llywio ein gwaith yn y maes hwn, ac mae hefyd yn eu hategu nhw. Bwriedir i'r rhain fynd i'r afael ag agweddau penodol ar anghydraddoldeb a chefnogi grwpiau o bobl sy'n profi gwahaniaethu'n rheolaidd, er enghraifft:

- Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru;
- Cynllun Cenedl Noddfa ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches;
- Gweithredu ar Anabledd – Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol;
- Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Hefyd, mae gan Lywodraeth Cymru lawer o strategaethau a ffrydiau cyllido eraill sy'n hanfodol i'n gwaith i sicrhau cydraddoldeb i'n holl ddinasyddion. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r Cynllun Cyflogadwyedd, egwyddorion Tai yn Gyntaf, Grantiau Datblygu Disgyblion, Strategaeth y Gymraeg, y Gronfa Cymorth Dewisol a'r Strategaeth Drafnidiaeth.

Bwriedir i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn ategu ac atgyfnerthu'r holl waith sy'n cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb a dileu'r rhwystrau i gyflawni hynny, yn ogystal â diogelu hawliau pobl Cymru. Nid yw'n dyblygu'r hyn a geir mewn manau eraill – er enghraifft, mae llawer mwy o wybodaeth yn *Gweithredu ar Anabledd* ynghylch y ffordd rydym yn gweithio gyda phobl anabl ac yn eu cefnogi nag a geir yma. Felly, dylai'r cynllun hwn gael ei ddarllen ochr yn ochr â'r rhain er mwyn cynnig darlun mwy cyflawn a manwl.

Mae ein nodau cydraddoldeb hirdymor yn cwmpasu meysydd tebyg i'r rhai yng Nghynlluniau Cydraddoldeb Strategol blaenorol Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith o ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid, ynghyd â'r dystiolaeth yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol '*A yw Cymru'n Decach? 2018*', wedi tanlinellu pa mor fawr yw'r heriau rydym yn eu hwynebu. Mae llawer o'r mathau o anghydraddoldeb rydym am fynd i'r afael â nhw wedi'u gwreiddio'n ddwfn ac maent yn cael eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall.

Mewn ymateb, mae'r dull gweithredu a amlinellir yn y cynllun hwn yn newid sylweddol o ran sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion hyn. Bydd Amcanion Cydraddoldeb Strategol, a ategir gan gamau gweithredu mesuradwy sydd wedi'u targedu, yn ein galluogi i wneud cynnydd go iawn tuag at nodau tymor hwy, gan gael gwared ar anghydraddoldeb sydd wedi hen ymsefydlu a gwneud Cymru yn fwy cyfartal.

# Pennod 1: Cydraddoldeb a'r Gyfraith yng Nghymru

Mae'r bennod hon yn amlinellu prif rannau'r fframwaith cyfreithiol sy'n ategu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

### (i) Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru yn anelu at ddwyn ynghyd faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Fodd bynnag, ceir sail statudol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'i amcanion cysylltiedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) 2011.

Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sydd, yn gryno, yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus, wrth arfer eu swyddogaethau, i roi sylw priodol i'r angen i wneud y canlynol:

- Dileu achosion o wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu;
- Meithrin cydberthnasau da rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

Y naw nodwedd warchoddedig yw: oedran; anabled; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil

Gan adeiladu ar y Ddeddf ei hun, gosododd Rheoliadau penodol i Gymru<sup>1</sup> sylfaen bellach ar gyfer datblygu cydraddoldeb yng Nghymru gyda'r nod o sicrhau bod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn gweithredu'n well. O dan y Rheoliadau hyn, bu'n ofynnol yn gychwynnol i gyrff datganoledig yn y sector cyhoeddus a restrwyd, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, baratoi a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb erbyn 2 Ebrill 2012 fan bellaf. Rhaid i'r gyrff hyn adolygu pob un o'u hamcanion cydraddoldeb cyn pen y cyfnod o bedair blynedd, gan ddechrau ar y dyddiad y cafodd yr amcan ei gyhoeddi gyntaf. Cânt ddiwygio neu ail-wneud amcan cydraddoldeb unrhyw bryd.

Wrth ddatblygu eu hamcanion cydraddoldeb, rhaid i'r gyrff hyn gynnwys pobl sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n rhannu un nodwedd warchoddedig neu fwy ac sydd â budd yn y ffordd y mae corff y sector cyhoeddus yn cyflawni ei swyddogaethau.


O dan Reoliadau Cymru felly, rhaid i Weiniogion Cymru gyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb sydd wedi'u cynllunio i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau cydraddoldeb o fewn y sector cyhoeddus yn well. Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb a nodir yn y cynllun hwn yn ein helpu i flaenoriaethu meysydd anghydraddoldeb y mae angen mynd i'r afael â nhw ar frys.



**(ii) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Bydd creu Cymru sy'n fwy cyfartal, lle mae gan bawb y cyfle i gymryd rhan, gwireddu eu potensial llawn a gallu cyfrannu'n llawn at yr economi, yn galluogi Cymru i fod yn fwy llewyrchus ac arloesol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi dyletswydd i ymgymryd â datblygu cynaliadwy gyda'r nod o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n cynnwys saith nod llesiant i wneud Cymru yn wlad lewyrchus, gydnerth, iachach a mwy cyfartal sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang ac sydd â chymunedau cydlynus, diwylliant bywiog a lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Ni ellir gwahanu'r nodau llesiant hyn, sy'n esbonio beth yw ystyr llesiant Cymru. Y saith nod llesiant yw:



Er y bydd ein Hamcanion Cydraddoldeb yn goryffwrdd â llawer o'r nodau llesiant, byddant yn benodol yn cefnogi cynnydd tuag at y canlynol:

**Cymru sy'n fwy cyfartal**

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

**Cymru o gymunedau cydlynus**

Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

Yn ôl y Ddeddf, mae hefyd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth wrth gymhwyso'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Mae'r egwyddor yn cynnwys pum ffordd allweddol o weithio. Mae'n rhaid i ni wneud y canlynol:

- edrych i'r **hirdymor** er mwyn i ni beidio â pheryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- mabwysiadu **dull gweithredu integredig** er mwyn i gyrff cyhoeddus ystyried yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu blaenoriaethau;
- **cynnwys** amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- gweithio gydag eraill mewn ffordd **gydweithredol** i ddod o hyd i atebion cynaliadwy cyffredin;
- deall yr hyn sydd wrth wraidd problemau er mwyn eu **hatal** rhag digwydd ac ystyried a ddylem newid y ffordd rydym yn defnyddio ein hadnoddau ar hyn o bryd.

Bydd y pum ffordd hyn o weithio yn llywio ein gwaith i ddatblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb a'r camau gweithredu a fydd yn helpu i sicrhau ein bod yn eu cyflawni.

Gyda'i gilydd, mae'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf wedi'u cynllunio i gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

Ein dull o wneud y cyfraniad mwyaf at y nodau llesiant fu nodi'r meysydd hynny lle y gall defnyddio ein pwerau a'n sbardunau gyflawni gwelliant go iawn dros y tymor llywodraeth hwn, a lle gall gweithredu ar y cyd ar draws y llywodraeth, ac â'n partneriaid cyflenwi, gael yr effaith fwyaf.

Gyda ffocws ar yr hirdymor, a chan ystyried y dystiolaeth a'r ymgynghoriad, rydym wedi datblygu cyfres o nodau tymor hwy y gall Llywodraeth Cymru wneud cynnydd tuag atynt drwy ein Hamcanion o safon. Gobeithiwn y gall y rhain hefyd helpu'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wneud cynnydd; gall y sector ehangach ddewis mabwysiadu'r un nodau os byddant yn dewis gwneud hynny. Bydd hyn yn darparu cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb gyda'n gilydd, mewn ffordd integredig a strategol.

### **(iii) Y darlun ehangach**

Mae llawer o gyfreithiau eraill Cymru a'r DU, yn ogystal â chytuniadau a chonfensiynau rhyngwladol, yn ategu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cyfreithiau sy'n ymwneud ag agweddau penodol ar fywyd a gwaith, megis cyflogaeth, addysg, iechyd neu gyfiawnder, yn ogystal â'r rhai sy'n ymwneud â grwpiau penodol o bobl megis ffoaduriaid, pobl anabl neu blant. Ni ellir darparu rhestr gynhwysfawr, ond mae'n bwysig cofio nad y Deddfau Cydraddoldeb a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r unig ddarnau perthnasol o ddeddfwriaeth.

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn nodi'r hawliau a'r rhyddidau sylfaenol sydd gan bawb yn y DU. Mae'n corffori'r hawliau a nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yng nghyfraith ddomestig Prydain.

Mae'r Confensiwn yn deillio o Gyngor Ewrop (nid yr Undeb Ewropeaidd) ac mae'n seiliedig ar y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, sef y cytundeb rhyngwladol cyntaf ar egwyddorion sylfaenol hawliau dynol, a dderbynnir gan bron pob gwladwriaeth yn y byd. Mae'r DU yn parhau i ddilyn y Confensiwn a'r Datganiad Cyffredinol.

## Pennod 2: Beth mae'r dystiolaeth o ran cydraddoldeb yn ei ddweud wrthym

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

O dan ddyletswyddau cydraddoldeb penodol Cymru, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru asesu effaith debygol ein polisiau a'n harferion. Gellir cyflawni hyn drwy ddadansoddiad trylwyr o dystiolaeth cydraddoldeb ac ymgysylltu â chymunedau, unigolion ac arbenigwyr. Mae hyn yn ein helpu ni i ddeall sut y gallai ein polisiau a'n harferion effeithio ar bobl â nodweddion gwarchoddedig ac a fydd angen camau gweithredu priodol er mwyn dileu neu leihau unrhyw effeithiau negyddol lle bo'n bosibl.

Mae ein Hasesiad Effaith Integredig ar gyfer yr Amcanion Cydraddoldeb ar eu newydd wedd yn cynnwys yr adborth o'n gwaith ymgysylltu cynnar a'r ymgynghoriad, yn ogystal â'r dystiolaeth werthfawr sy'n ymwneud â chydraddoldeb sydd ar gael o waith ymchwil, ymchwiliadau a datganiadau ystadegol diweddar.

Mae rhai o brif ffynonellau'r dystiolaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb rydym yn cyfeirio atynt fel rhan o'n dadansoddiad ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cynnwys:

- *A yw Cymru'n Decach?*<sup>2</sup> (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018);
- *Adolygiad Cyflym o Gydraddoldeb Rhywiol Cam Un*<sup>3</sup>, ac adroddiad a map Cam Dau 'Gwneud nid Dweud' (Chwarae Teg, 2018 a 2019);
- *Llesiant Cymru 2018-19*<sup>4</sup> (Llywodraeth Cymru, 2019).

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn rhoi gwybodaeth i ni am amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig, y mae angen i ni eu hystyried wrth ddatblygu ein Hamcanion

Cydraddoldeb ar eu newydd wedd. Rydym wedi nodi rhai ohonynt isod:

### Rhyw

Mae menywod yn wynebu anghydraddoldebau mewn sawl ffurf, sydd ond yn dwysáu os bydd ganddynt nodwedd warchoddedig arall hefyd. Yn aml, mae menywod o gymunedau Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME), LGBT, a menywod oedrannus neu anabl yn wynebu sawl anghydraddoldeb sy'n golygu ei bod yn anoddach iddynt gyflawni eu potensial llawn. Gelwir gwahanol fathau o anghydraddoldeb yn gorgyffwrdd fel hyn ac yn creu problemau ac anfantais hyd yn oed yn fwy i bobl â mwy nag un nodwedd warchoddedig yn rhyngblethedd. Mae Cam Dau o'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol wedi rhoi cyfres o argymhellion i ni ar gyfer cyflawni cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru a bydd ein Hamcanion Cydraddoldeb yn sbardunau allweddol wrth gyflawni cydraddoldeb rhyngblethol.

### Anabledd

Mae pobl anabl wedi eu heffeithio yn anghymesur gan ddiwygio lles a chyni. Cafodd hyn ei amlygu gan archwiliad y CU o weithrediad y DU o Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anabledau (UNCRRDP) yn 2016/2017 ac mae'r materion hyn wedi eu atgyfnerthu drwy'r broses o ddatblygu ein fframwaith newydd: *Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibyrrnol*.

Cafodd adroddiad ar yr effaith gronns o ddiwygio trethi a lles ei gyhoeddi gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ym mis Mawrth 2018<sup>5</sup>. Crynhodd y dadansoddiad yma ganfyddiadau

ar effaith posibl diwygio trethi a lles Llywodraeth y DU, gan gynnwys ar lefel Cymru. Adroddodd yr ymchwil hwn hefyd fod effaith negyddol anghymesur ar incwm llawer o'r grwpiau gyda nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys pobl anabl.

### Hil

Mae'r cynnydd dramatig diweddar mewn troseddau casineb wedi effeithio ar bobl o gefndiroedd Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME), gan fod 73% (ffigurau 2018/19) o droseddau a digwyddiadau casineb a gofnodwyd wedi'u hysgogi gan ragfarn hiliol neu grefyddol. Mae cyfarfodydd diweddar o Fforwm Hil Cymru a Rhaglen Ymgysylltu Cymru Gyfan ar gyfer Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wedi tynnu sylw at hiliaeth yn ein cymunedau, yn cynnwys ysgolion a gweithleoedd, a'r angen am gamau gweithredu ar y cyd er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.

### Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

Yn 2017, cyhoeddodd pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei ymchwiliad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches<sup>6</sup> yn ystod argyfwng ffoaduriaid mwyaf y byd ers yr Ail Ryfel Byd. Yn aml, mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cyrraedd Cymru ar ôl cael profiadau dirdynol yn eu mamwlad ac ar eu taith i'r DU. Rydym am sicrhau y caiff yr unigolion hyn gymorth i ailadeiladu eu bywydau a gwneud cyfraniad llawn at gymdeithas yng Nghymru. Ym mis Ionawr 2019, lansiodd Llywodraeth Cymru Gynllun Cenedl Noddfa<sup>7</sup>, sy'n nodi amrywiaeth o gamau gweithredu er mwyn

2 Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2018). A yw Cymru'n Decach? <https://www.equalityhumanrights.com/cy/publication-download/yw-cymru-n-decach-2018>

3 Chwarae Teg (2018). Adroddiad Cyflym o Gydraddoldeb Rhywiol Cam Un. <https://chwaraeteg.com/wp-content/uploads/2019/06/Rapid-Review-of-Gender-Equality-Phase-One-full-report.pdf>

4 Llywodraeth Cymru (2019). Adroddiad Llesiant Cymru 2018-19. <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-11/llesiant-cymru-2019.pdf>

5 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2018), The Cumulative Impact of Tax and Welfare Reforms <https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/cumulative-impact-tax-and-welfare-reforms>

6 Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau (2017) Roeddwn i'n arfer bod yn rhywun. <https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11012/cr-ld11012-w.pdf>

7 Llywodraeth Cymru Cynllun Cenedl Noddfa. <https://llyw.cymru/cynllun-ffoaduriaid-cheiswyr-lloches-cenedl-noddfa>

mynd i'r afael ag argymhellion y pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, a materion ychwanegol a nodwyd drwy ymgynghoriad i wella bywydau pobl sy'n ceisio noddfa yng Nghymru.

### Cyfeiriadedd rhywiol / ailbennu rhywedd (Pobl Lesbïaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol – LGBT)

Mae *Adroddiad Gwaith*<sup>8</sup> Stonewall Cymru 2018 wedi datgelu achosion o wahaniaethu sy'n peri pryder yng ngweithleoedd Cymru, gyda thraean o'r ymatebwyr LGBT a gyflogir yng Nghymru (34%) yn nodi eu bod wedi cuddio'r ffaith eu bod nhw'n LGBT yn y gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan eu bod yn ofni gwahaniaethu. Yn *Adroddiad Ysgol Cymru*<sup>9</sup> a gyhoeddwyd yn 2017, dangoswyd, er bod rhai pobl ifanc LGBT yng Nghymru yn cael eu derbyn, fod bwlio, gwahaniaethu ac eithrio yn rhan o fywydau bob dydd llawer ohonynt.

### Oedran (Pobl Hŷn)

Rydym yn gymdeithas sy'n heneiddio, ac amcangyfrifir bod ychydig dros 800,000 o bobl dros 60 oed yn byw yng Nghymru yn 2018, sy'n cyfrif am ychydig dros 25% o gyfanswm y boblogaeth. Disgwylir i'r ffigur hwn gynyddu a disgwylir i nifer y bobl dros 85 oed gynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd i ddod. Mae lefelau tlodi ymysg pobl hŷn yn cynyddu ac mae'r bwlch o ran disgwyliad oes iach adeg geni rhwng yr ardaloedd lleiaf difreintiedig a'r ardaloedd mwyaf difreintiedig o Gymru yn amrywio cymaint â 18 mlynedd ar gyfer dynion a menywod (rhwng 2015 a 2017)<sup>10</sup>. Mewn ymateb i'r

ddemograffeg newidiol hon, rydym yn gweithio gyda phartneriaid i gyd-lunio Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio. Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru hefyd yn gweithio i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn a wynebwr gan unigolion a chymunedau ledled Cymru.

### Plant a Phobl Ifanc

Yn 2019, cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru *Siarter ar gyfer Newid: Amddiffyn plant yng Nghymru rhag effaith tlodi*<sup>11</sup>. Nododd nad yw plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru yn cael eu hawliau dynol mwyaf sylfaenol, sef diwallu eu hanghenion o ran bwyd, cysgod ac iechyd. Mae costau mynychu a chyfranogii yn yr ysgol yn arwain at gyfle anghyfartal i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi. Mae'r plant a'r bobl ifanc hyn hefyd yn teimlo wedi'u hynysu'n gymdeithasol oherwydd bod diffyg cyfleoedd ar gael iddyn nhw yn eu cymuned.

### Beichiogrwydd a mamolaeth

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi gwneud gwaith ymchwil ar feichiogrwydd a mamolaeth yn y gweithle<sup>12</sup>. Nododd fod y mwyafrif o gyflogwyr o'r fam ei bod o fudd iddynt gefnogi menywod beichiog a'r rheini sydd ar gyfnod mamolaeth ac roeddent yn cytuno bod hawliau statudol mewn perthynas â beichiogrwydd a mamolaeth yn rhesymol ac yn hawdd eu rhoi ar waith. Nododd tua un o bob naw mam (11%) eu bod naill ai wedi cael eu diswyddo neu wedi cael eu diswyddo'n orfodol o gymharu ag eraill yn eu gweithle na chawsant eu trin yn y ffordd hon. Nodwyd bod rhai wedi cael eu trin mor

wael fel eu bod wedi teimlo bod yn rhaid iddynt adael eu swydd. Dywedodd un o bob pum mam eu bod wedi wynebu aflonyddwch neu sylwadau negyddol yn ymwneud â beichiogrwydd neu weithio hyblyg gan eu cyflogwr a / neu gydweithwyr a dywedodd 10% o'r mamau fod eu cyflogwr wedi eu hannog i beidio â mynychu apwyntiadau cynenedigol.

### Crefydd/cred

Yn 2016, cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol *Religion or Belief: Is the Law Working?*<sup>13</sup> Nododd gwaith ymchwil fod y Ddeddf Cydraddoldeb a'r Ddeddf Hawliau Dynol yn rhoi digon o ddiogelwch i unigolion y mae ganddynt grefydd neu gred, unigolion nad oes ganddynt grefydd neu gred, sefydliadau crefydd neu gred a grwpiau eraill a ddiogelir gan y Ddeddf Cydraddoldeb. Er hyn, nodwyd cyfleoedd ar gyfer gwella. Er enghraifft, mynd i'r afael â phryderon nad yw cyflogwyr, cyflogoion, darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth yn aml yn glir ynghylch eu hawliau a'u rhwymedigaethau. Nid ydynt yn siŵr sut i wneud cais neu ymateb i gais sy'n ymwneud â chrefydd neu gred unigolyn, na sut i reoli gweithleoedd amrywiol neu grwpiau defnyddwyr gwasanaeth amrywiol.

8 Adroddiad Gwaith Stonewall Cymru (2018). <https://www.stonewallcymru.org.uk/cy/our-work/stonewall-research/lhdt-yng-nghymru-%E2%80%93-gwaith>

9 Adroddiad Ysgol Stonewall Cymru (2017). <https://www.stonewallcymru.org.uk/cy/schoolreportcymru>

10 SYG (2019) Health state life expectancies by national deprivation deciles, England and Wales: 2015 to 2017 <https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthinequalities/bulletins/healthstatelifeexpectanciesbyindexofmultipledeprivationimd/2015to2017?uri=>

11 Comisiynydd Plant Cymru (2019) *Siarter ar gyfer Newid: Amddiffyn plant yng Nghymru rhag effaith tlodi* <https://www.complancymru.org.uk/wp-content/uploads/2019/04/Siarter-ar-Gyfer-Newid-Diogelu-Plant-Cymru-rhag-Effaith-Tlodi.pdf>

12 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2018) *Pregnancy and maternity discrimination research findings*. <https://www.equalityhumanrights.com/en/managing-pregnancy-and-maternity-workplace/pregnancy-and-maternity-discrimination-research-findings>

13 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2016) *Religion or Belief: Is the Law Working?* <https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/religion-or-belief-report-december-2016.pdf>

# Penod 3: Sut y cafodd y cynllun hwn ei ddatblygu

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn wedi cael ei ddatblygu drwy ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth, a hynny ar sawl cam gan ddechrau ddiwedd 2018.

### (i) Ymgysylltu'n Gynnar

I ddechrau, cynhaliwyd trafodaethau anffurfiol â rhanddeiliaid cydraddoldeb ledled Cymru. Yn eu tro, llywiodd y trafodaethau hyn ddigwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd yng Nghaerdydd, y Drenewydd a Bae Colwyn ym mis Mawrth 2019. Roedd y digwyddiadau yn agored i bawb, a daeth oddeutu 60 o randdeiliaid i gyd, yn bennaf o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Gwnaethom gyflwyno trosolwg o'r dirwedd wleidyddol bresennol i'r sawl a oedd yn bresennol a chynnal trafodaethau bord gron ar gyfres o gwestiynau, gan gwmpasu'r dull o ymdrin â'r Amcanion Cydraddoldeb ar eu newydd wedd a'r trefniadau i ddilyn rhaglen gyllido Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-20.

Gofynnodd a oedd unrhyw feysydd anghydraddoldeb nad oedd yr Amcanion Cydraddoldeb blaenorol (2016-2020) yn mynd i'r afael â nhw. Yn gyffredinol, cadarnhaodd yr ymatebion fod y materion a gwmpesir gan yr amcanion hynny yn dal i fodoli, ond bod angen eu diweddarau er mwyn adlewyrchu'r newidiadau mewn cymdeithas ers iddynt gael eu datblygu yn 2015-16.

### Gwnaed y pwyntiau allweddol canlynol:

- Gofynnodd rhanddeiliaid pam nad oedd hawliau dynol yn cael eu cynnwys yn yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol presennol ac awgrymwyd y dylid mynd i'r afael â hyn pan gânt eu mireinio.
- Roedd angen rhoi mwy o sylw i ddarparu gwasanaethau hygyrch, yn cynnwys iechyd, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol, addysg a thrafnidiaeth. Y teimlad oedd bod trafniadaeth, yn benodol, yn elfen bwysig a hepgorwyd o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol blaenorol.

Rhoddodd rhanddeiliaid adborth hefyd ar yr hyn y dylid mynd i'r afael ag ef, yn eu barn nhw, fel blaenoriaeth yn seiliedig ar y tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, materion a thystiolaeth sydd ar gael.

### Roedd y pwyntiau trafod yn cynnwys y canlynol:

- Ystyriwyd bod lefelau cynyddol o tlodi o ganlyniad i fesurau diwygio lles a chyni yn cael effaith arbennig o anghymesur ar y rhai sy'n gallu ei oddef leiaf, yn cynnwys effaith andwyol ar eu hawliau dynol. Roedd consensws cyffredinol y dylid rhoi blaenoriaeth i ymrwymiad i fynd i'r afael ag achosion tlodi a lliniaru effeithiau tlodi yn yr Amcanion Cydraddoldeb ar eu newydd wedd.
- Crybwyllwyd effeithiau ymadael â'r Undeb Ewropeaidd fel blaenoriaeth, yn enwedig yr ofn y gellid tanseilio deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol o ganlyniad i hynny. Cytunodd sawl un a oedd yn bresennol fod angen mynd ati i warchod hawliau pobl yng Nghymru. Roedd cynnydd dramatig mewn troseddau casineb ers y refferendwm yn adlewyrchu'r angen i gryfhau'r pwyslais ar gydlyniant cymunedol a mwy o waith ataliol ar aflonyddwch a difrïo.
- Roedd croeso cyffredinol i waith presennol Llywodraeth Cymru ar atgyfnerthu a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, ar yr amod bod dulliau gweithredu effeithiol yn cael eu canfod, p'un ai drwy ddefnydd gwell o ddeddfwriaeth bresennol neu ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol newydd. Ystyriwyd bod cychwyn arfaethedig Rhan 1 o'r Ddeddf Cydraddoldeb – y ddyletswydd economaidd – gymdeithasol – yng Nghymru yn rhywbeth cadarnhaol iawn i sbarduno newid.
- Awgrymodd adborth y gallai'r Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol roi cymorth mwy cyson ar draws yr holl Amcanion Cydraddoldeb yn y dyfodol. Anogwyd mwy o gysondeb â strwythurau cymorth eraill ar gyfer cydraddoldeb a chynhwysiant.
- Myfyriodd rhanddeiliaid ar ddiffyg cynrychiolaeth grwpiau amrywiol o bobl sy'n cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddiaeth. Dylai Llywodraeth Cymru arwain y ffordd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn gyffredinol, a dylid ehangu

ei nod o fod yn gyflogwr sy'n dangos esiampl i fod yn sefydliad cydraddoldeb sy'n dangos esiampl yn fwy cyffredinol.

### (ii) Ymgynghori

Gwnaeth cam cyntaf yr ymgysylltu lywio'r gwaith o ddatblygu dogfen ymgynghori a amlinellodd nodau ac amcanion cydraddoldeb drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020–2024. Dechreuodd yr ymgynghoriad ffurfiol ar 24 Medi 2019 a daeth i ben ar 19 Tachwedd. Yn ystod yr ymgynghoriad, cynhaliwyd gweithdai ymgysylltu ledled Cymru, dan arweiniad swyddogion o Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, gan ddefnyddio digwyddiadau Rhwydwaith Cyfnewid presennol y Comisiwn. Hefyd cynhaliwyd gweithdy ymgynghori gydag aelodau o wahanol fforymau Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hwn er mwyn casglu mwy o sylwadau, safbwyntiau ac awgrymiadau.

Cafwyd 63 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan unigolion/sefydliadau ac ystyriwyd y rhain ar y cyd ag ymatebion a sylwadau o'r gweithdai. Mae'r ymatebion wedi cael eu dadansoddi ac mae adroddiad cryno wedi'i gyhoeddi yn Atodiad 2.

Er bod yr ymatebion yn amrywiol ac yn fanwl, roedd rhai themâu a sylwadau cyffredin a rannwyd gan nifer sylweddol o ymatebwyr. Roedd hyn yn cynnwys cefnogaeth i rai rhannau o'n cynigion, gan gynnwys:

- Cysylltu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol â Deddf Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru);
- Cysylltu amcanion strategol â nodau hirdymor a chamau gweithredu mesuradwy;
- Comisiynu ymchwil i opsiynau i atgyfnerthu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru;
- Cysoni cyllid ar gydraddoldeb yn y dyfodol â'r amcanion strategol;
- Cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol;

- Rhoi mwy o gydnabyddiaeth i effaith anfantais economaidd-gymdeithasol fel un o achosion anghydraddoldeb;
- Defnyddio argymhellion yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol fel sail dull gweithredu mwy rhyngblethol, gan gydnabod bod mwy nag un math o anfantais neu wahaniaethu yn effeithio ar rai pobl.

Beimiadwyd y dull gweithredu a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori gan nifer sylweddol o ymatebwyr. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Galw ar i'r cynllun yn gyffredinol a'r Amcanion Strategol yn arbennig fod yn CAMPUS (Cyraeddadwy; Amserol; Mesuradwy; Penodol; Uchelgeisiol a Synhwyrol);
- Pryder nad oedd camau gweithredu yn ymwneud â phob amcan wedi'u cynnwys yn y ddogfen ymgynghori. Galwodd rai am ymgynghori ymhellach ar y camau;
- Roedd rhai yn teimlo nad oedd y cysylltiadau â'r materion a nodwyd yn *A yw Cymru'n Decach? 2018* yn ddigon cryf;
- Galwodd rhai ymatebwyr am i'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol gael ei weithredu, ac roedd eraill yn poeni y byddai rhywedd yn cael ei flaenoriaethu ar draul nodweddion gwarchoddedig eraill;
- Galwodd sawl ymatebydd am i un neu fwy agwedd ar anghydraddoldeb gael proffil uwch yn y cynllun. Nodwyd sawl mater gwahanol, gan gynnwys anabledd, hil, y Gymraeg, gofawyr, cam-drin, cyflogaeth, crefydd, addysg, digartrefedd, iechyd meddwl, troseddau casineb, pobl hŷn;
- Tynnwyd sylw at bwysigrwydd monitro hynt y cynllun yn effeithiol. Galwodd rhai ymatebwyr am dargedau sefydlog;
- Tanlinellodd ymatebwyr ei bod hi'n bwysig i holl adrannau Llywodraeth Cymru weithredu i gefnogi'r amcanion cydraddoldeb;
- Mynegwyd pryderon am fylchau a thoriadau cyllidol a allai lesteirio cynnydd neu atal yr amcanion rhag cael eu cyflawni.

### **(iii) Beth sydd wedi newid yn sgil yr ymgynghoriad?**

Nodwyd yn glir, mewn ymateb i'r gwaith ymgysylltu a'r ymgynghoriad, fod angen adolygu'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru weithredu er mwyn datblygu ac atgyfnerthu nid yn unig gydraddoldeb ond hefyd hawliau dynol yng Nghymru, gan sicrhau na chymerir unrhyw gamau yn ôl pan fydd y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae gan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn ddiben statudol i fodloni'r gofyniad yn rheoliadau 14 a 15 o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ymhellach na hyn er mwyn sicrhau bod Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru yn cael eu datblygu, eu hatgyfnerthu a'u diogelu.

O ganlyniad i'r ymgynghoriad, mae'r holl Amcanion wedi cael eu hadolygu. Mewn sawl achos, mae'r geiriad wedi cael ei atgyfnerthu fel eu bod yn fwy penodol ac â mwy o bwyslais, gyda'r holl gamau ategol yn glir, yn fesuradwy ac yn gyson â meysydd adroddiad 'A yw Cymru'n Decach?'. Ym mhob achos, ychwanegwyd camau enghrefftiol yn erbyn pob amcan, er mwyn dangos sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio i gyflawni'r amcanion.

Mae'r ymgynghoriad wedi cadarnhau'r angen i gysylltu nodau hirdymor ag Amcanion y gellir cadw eu nifer dan reolaeth, gyda champau penodol a mesuradwy yn sail i bob un. Cynnwys y camau gweithredu yw'r prif newid rhwng y ddogfen ymgynghori a'r cynllun hwn. Mewn sawl achos mae'r camau eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad ar wahân a/neu maent wedi'u datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid. Am y rheswm hwn nid ydym yn bwriadu cynnal ymgynghoriad arall arnynt.

Mae'r camau a geir yn y cynllun hwn wedi'u datblygu ar y cyd ag adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru ac mae priod Weinidogion Cymru yn eu cefnogi i gyd. Nid yw'r camau a nodir yn y cynllun hwn yn rhestr gynhwysfawr o'r holl bethau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu gwneud dros y pedair blynedd nesaf er mwyn cyflawni ein nodau a'n hamcanion cydraddoldeb. Enghreifftiau ydynt a ddewiswyd i dynnu sylw at faterion allweddol mewn perthynas â phob amcan, a'r hyn a wneir i fynd i'r afael â nhw. Cymerir rhai o'r camau tra bod y cynllun yn weithredol, a chaiff camau eraill eu datblygu yn ystod y cyfnod hwn.

Mae penodau eraill yn y cynllun hwn yn seiliedig ar y ddogfen ymgynghori, ac maent wedi cael eu diweddar i adlewyrchu newidiadau diweddar ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Yn dilyn cwblhau Cam 2 o'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol, dechreuwyd ar y cam gweithredu, sydd bellach â chysylltiad agos â gwaith arall ar atgyfnerthu a datblygu cydraddoldeb a hawliau dynol.

Cydnabyddir bod angen gwneud mwy o waith i nodi camau pellach er mwyn datblygu cydraddoldeb a mynd i'r afael â rhwystrau o ran anghydraddoldeb mewn perthynas â hil, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd. Bydd y gwaith hwn yn dechrau yn 2020.

Yn ystod yr ymgynghoriad, nododd sawl corff cyhoeddus fod Llywodraeth Cymru yn cynnal ei hadolygiad o amcanion cydraddoldeb ar yr un pryd â nhw. Awgrymwyd y gallai Llywodraeth Cymru ystyried adolygu a chyhoeddi ei hamcanion cyn y cylch pedair blynedd, gan ddangos arweinyddiaeth a darparu gweledigaeth y gallai cyrff cyhoeddus datganoledig ei dilyn.



# Atodiad 1

Tabl Nodau, Amcanion a Chamau Gweithredu Allweddol ym maes Cydraddoldeb

Nod Hirdymor 1: Dileu anghydraddoldeb sy'n deillio o dlodi.					
Amcan Cydraddoldeb 1: Byddwn yn cymryd camau i leihau'r risg o wynebu tlodi, gan wella canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf ac sy'n byw ar aelwydydd incwm isel.					
	Maes "A yw Cymru'n Decach?"	Canlyniad Disgwyliedig	Dyddiad Cyflawni Amcangyfrifedig	Sut y caiff cynnydd ei fesur?	
<p><b>Cam gweithredu 1.1:</b> Rhoi'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn Rhan Un o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ar waith, er mwyn ei gwneud yn ofynnol i rai cyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried effaith economaidd-gymdeithasol eu penderfyniadau strategol.</p>	Unrhyw un neu bob un o'r 6 maes (yn dibynnu ar y penderfyniad strategol a wneir).	Mae penderfyniadau strategol yn lliniaru canlyniadau cyfartal a achosir gan amfantais economaidd-gymdeithasol.	2020	Ystyrir y trefniadau adrodd i'w rhoi ar waith fel rhan o'r cynllun gweithredu.	
<p><b>Cam gweithredu 1.2:</b> Byddwn yn cefnogi'r rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur, sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n gwaethgu o ganlyniad i'r ffaith bod ganddynt nodwedd warchoddedig, yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig drwy ein rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol. Bydd cynnig mentora a chymorth dwys, cyfleoedd i hyfforddi a chael profiad gwaith yn galluogi pobl i sicrhau cyflogaeth gynaliadwy fel llwybr i ddianc rhag tlodi.</p>	Gwaith	Dangosydd llesiant cenedlaethol 16: y % o'r bobl sydd mewn gwaith, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau droos dro ac nad ydynt yn ceisio gwaith parhaol) ac sy'n ennill mwy na 2/3 o gyflog canolrifol y DU.	31/03/2023	Caiff nifer yr unigolion sy'n cael cymorth a chefnogaeth i gael gwaith ei nodi drwy allbwn misol y rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol.	
<p><b>Cam gweithredu 1.3:</b> Cynnal pum prosiect peilot dwy flynedd i hyrwyddo entrepreneuriaeth i grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol, yn arbennig y rhai nad ydynt mewn gwaith, mewn ardaloedd difreintiedig. Defnyddio canlyniadau'r prosiectau i gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.</p>	Gwaith	Mwy o ymgysylltu ag unigolion sydd dan anfantais sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu. Niferoedd sy'n dod yn hunangyflogedig neu'n gyflogedig.	01/03/2022	Adolygiad chwarterol o brosiectau.	
<p><b>Cam gweithredu 1.4:</b> Byddwn yn gweithio gyda grwpiau o bobl â nodweddion gwarchoddedig i ddatblygu meini prawf ar gyfer cyllid grant trafudiadau leoli i awdurdodau lleoli. Drwy wneud hyn gellir blaenoriaethu cynlluniau sy'n gwella cyfleoedd ac yn lleihau anghydraddoldebau i'r rhai sy'n byw mewn tlodi.</p>	Gwaith Cyfranogiad	Gwell hygyrchedd i gartrefi incwm isel, yn enwedig y rhai â nodweddion gwarchoddedig. Mwy o gyllid trafudiadau leoli sy'n anelu at liniaru effaith tlodi ar symudedd a hygyrchedd.	2020–2024	Arolygon defnyddwyr, adborth ac adroddiadau cynnydd blynyddol awdurdodau lleoli.	

### Nod Hirdymor 1: Dileu anghydraddoldeb sy'n deillio o dtodi.

Amcan Cydraddoldeb 1: Byddwn yn cyrrydu camau i leihau'r risg o wynebu tiodi, gan wella canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf ac sy'n byw ar aelwydydd incwm isel.

	Maes "A yw Cymru'n Decach?"	Canlyniad Disgwyliedig	Dyddiad Cyflawni Amcangyfrifedig	Sut y caiff cynnydd ei fesur?
<p><b>Cam gweithredu 1.5:</b> Ehangu ac adolygu pedair elfen Contract Economaidd y Cynllun Gweithredu Economaidd er mwyn cynyddu ei effaith a chyflwynu'r broses o gynnwys mwy o grwpiau ymylol ac sydd wedi'u hallgáu, yn enwedig mynediad pobl anabl i fyd busnes a gwaith. Sicrhau bod y gwaith hwn hefyd wedi'i gynnwys mewn llythyrau cynnig grant lle y bo'n gymwys ac wedi'i adlewyrchu yn y Framweithiau Economaidd Rhanbarthol.</p>	<p>Gwaith</p>	<p>1. Ehangu'r ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol er mwyn mapio, archwilio arferion gorau a dysgu gwersi o'r rhain. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu cynllun gweithredu mwy manwl a bydd hefyd yn ehangu ymgysylltu'r Llywodraeth (yn enwedig o ran Iechyd, Addysg a Materion Rhyngwiadol). Bydd yn fodd i gyflawni amcanion ar sail cyfundebydd trawslywodraethol gan feithrin dealltwriaeth eang o werth systemig y cysyniad o nwydd cyhoeddus, a rhoi hynny ar waith.</p> <p>2. Codi ymwybyddiaeth o Contract Economaidd y Cynllun Gweithredu Economaidd a llwyddiannau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'u gwneud yn fwy gweledol, fel bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru yn deall yn well sut maent yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau. Sicrhau bod mwy o sefydliadau a busnesau yn gweithredu'n unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Contract Economaidd.</p> <p>3. Codi ymwybyddiaeth o effaith y Contract Economaidd ar ddinasyddion a'i fuddiannau i fyd busnes, ynghyd â sbardunau eraill, drwy nodi hyrwyddwyr. Darbwyllo'r cyhoedd bod byd busnes a llywodraethau yn gweithredu er eu budd pennaf.</p> <p>4. Dangos sut mae dull treiddiol o ddarparu nwyddau cyhoeddus systemig yn dda i fyd busnes a dinasyddion.</p> <p>5. Drwy ddylanwadu ar y llywodraeth a grwpiau busnes, canolbwyntio ar wneud gwahaniaeth er mwyn ysbrydoli eraill i roi cynnig ar rywbeth newydd a brigadu ac integreiddio gwaith ymgysylltu preifat a chyhoeddus ledled Cymru er mwyn gwneud hynny.</p> <p>6. Monitro a gwerthuso, nodi arferion gorau a'u rhannu, lluniadu a datblygu modelau ymyrryd llwyddiannus sy'n deillio o'r gwaith.</p>	<p>01/03/2022</p>	<p>Adolygu hyn ddwywaith y flwyddyn.</p>

<p><b>Nod Hirdymor 1: Dileu anghydraddoldeb sy'n deillio o dtodi.</b></p> <p>Amcan Cydraddoldeb 1: Byddwn yn cymryd camau i leihau'r risg o wynebu tiodi, gan wella canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf ac sy'n byw ar aelwydydd incwm isel.</p>				
Maes "A yw Cymru'n Decach?"	Canlyniad Disgwyliedig	Dyddiad Cyflawni Amcangyfrifedig	Sut y caiff cynnydd ei fesur?	
<p>Gwaith</p> <p><b>Cam gweithredu 1.6:</b> Defnyddio buddsoddiadau'r Cronfeydd Ewropeaidd i leihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) a lleihau nifer y plant a phobl ifanc 11-24 sydd mewn addysg sydd mewn perygl o ddod yn NEET.</p> <p>Defnyddio Buddsoddiadau'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd i gynyddu'r nifer sy'n astudio pynciau gwyddoniaeth, technegol, peirianneg a mathemateg (STEM), a'u lefelau cyrhaeddiad, ymhlith plant a phobl ifanc 11-18 oed yn y gorllewin a'r cymoedd. (Bydd y camau gweithredu yn canolbwyntio'n bennaf ar ferched 11-19 oed er mwyn helpu i leihau'r bwlch cyrhaeddiad mewn pynciau STEM, yn enwedig mewn meysydd nad ydynt yn rhai gwyddorau cymdeithasol).</p> <p>Defnyddio Buddsoddiadau'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd i gefnogi unigolion â chyflyrau iechyd neu nam sy'n cyfyngu ar waith, a phobl anabl, i barhau mewn gwaith neu i weithio mwy.</p> <p>Defnyddio Buddsoddiadau'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd i gynyddu nifer y merched cyflogedig neu hunangyflogedig sydd mewn gweil sefyllfa waith (cael gwaith mwy sefydlog neu amser llawn; gweithio oriau mwy hysblyg neu weithio mwy; cael swydd sy'n gofyn am lefelau cymhwysedd/sgiliau/cymwysterau uwch, lle ceir mwy o gyfrifoldeb; cael dyrchafiad).</p>	<p>Disgwyliwn weld (1) cynnydd yn nifer y bobl ifanc NEET 16-24 oed sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (2) cynnydd yn y nifer sy'n astudio pynciau STEM a'u lefelau cyrhaeddiad ymhlith plant a phobl ifanc 11-18 oed yn y gorllewin a'r cymoedd (3) cynnydd yn nifer yr unigolion â chyflyrau iechyd neu nam sy'n cyfyngu ar waith, a phobl anabl, sy'n parhau mewn gwaith ac yn cael gwaith a (4) cynnydd yn nifer y merched cyflogedig neu hunangyflogedig sydd mewn sefyllfa waith well.</p>	<p>Awst 2023</p>	<p>Drwy amrywiaeth o wybodaeth monitro cydraddoldeb gan gynnwys:</p> <p>Unigolion nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) sydd rhwng 16 a 24 oed ac sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cael cefnogaeth</li> <li>• ennil cymwysterau</li> <li>• dychwelyd i addysg / hyfforddiant</li> <li>• cael gwaith.</li> </ul> <p>Pobl ifanc 11-24 oed sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddod yn NEET</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cael cefnogaeth</li> <li>• â llai o risg o ddod yn NEET.</li> </ul> <p>Pobl ifanc 11-19:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cael cefnogaeth</li> <li>• parhau i astudio pynciau STEM ar ôl 16 oed.</li> </ul> <p>Unigolion cyflogedig sydd â chyflwr iechyd neu nam sy'n cyfyngu ar waith, a phobl anabl, sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cael cefnogaeth</li> <li>• dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod i ffwrdd.</li> </ul>	

<b>Nod Hirdymor 1: Dileu anghydraddoldeb sy'n deillio o dtodi.</b>				
Amcan Cydraddoldeb 1: Byddwn yn cynryd camau i leihau'r risg o wynebu tiodi, gan wella canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf ac sy'n byw ar aelwydydd incwm isel.				
	Maes "A yw Cymru'n Decach?"	Canlyniad Disgwyliedig	Dyddiad Cyflawni Amcangyfrifedig	Sut y caiff cynnydd ei fesur?
<p><b>Cam gweithredu 1.7:</b> Defnyddio buddsoddiadau'r Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd i gynyddu cyflogadwyedd unigolion sy'n anweithgar yn economaidd ac sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir sy'n wynebu ddi-waith am gyfnod hir sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth.</p> <p>Defnyddio Buddsoddiadau'r Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd i helpu gweithwyr llai creffus, gan gynnwys unigolion o gefndiroedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) a phobl anabl, i feithrin sgiliau hamfodol, ac ennill cymwysterau technegol neu sy'n benodol i'r swydd.</p>	Gwaith	Disgwyliwn weld (1) cynnydd yng nghyflogadwyedd unigolion sy'n anweithgar yn economaidd ac sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth a (2) cynnydd yn nifer y gweithwyr llai creffus, gan gynnwys unigolion o gefndiroedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), a phobl anabl, sy'n cael hyfforddiant.	Awst 2023	<p>Sut y caiff cynnydd ei fesur?</p> <p>Drwy amrywiaeth o wybodaeth monitro cydraddoldeb gan gynnwys:</p> <p>Unigolion sy'n anweithgar yn economaidd ac sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir sy'n cael cefnogaeth gyda'r rhwystrau canlynol i gyflogaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfrifoldebau gofalu a gofal plant</li> <li>• o aelwyd ddi-waith</li> <li>• â chyflwr iechyd neu nam sy'n cyfyngu ar waith, a phobl anabl</li> <li>• o grŵp BAME</li> <li>• llai creffus, neu ddim yn greffus o gwbl.</li> </ul> <p>Nifer y gweithwyr heb unrhyw gymwysterau neu ag un neu ddau yn unig sy'n cael hyfforddiant a'r nifer sy'n ennill cymhwyster a nifer y rhai sy'n BAME neu'n anabl.</p>
<p><b>Cam gweithredu 1.8:</b> Byddwn yn sefydlu rhwydwaith o Hynwyddwyr Cyflogaeth i Bobl Anabl i ymgysylltu â gwahanol gyflogwyr ar hyd a lled Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar asedau, sgiliau ac entrepreneuriaeth pobl anabl; mabwysiadu dull cynhywsol o weithredu yn eu prosesau recriwtio; a helpu cyflogwyr i ddeall y rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl.</p>	Gwaith	Disgwyliwn weld cynnydd yng nghyfradd cyflogaeth pobl anabl yng Nghymru.	Ebrill 2021	Drwy ddata cenedlaethol ar gyflogaeth.
<p><b>Cam gweithredu 1.9:</b> Byddwn yn helpu llandlordiaid cymdeithasol i wella ansawdd cartrefi tenantiaid er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd ac yn cynnal Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).</p>	Iechyd Safonau byw	Mae SATC yn sicrhau bod rhai o'r bobl a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed yn byw mewn cartrefi o ansawdd da mewn cymunedau diogel.	Erbyn mis Rhagfyr 2020 a bob blwyddyn wedi hynny.	Cyhoeddiad ystadegau SATC blynyddol drwy StatsCymru.
<p><b>Cam gweithredu 1.10:</b> Rydym yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu atebion tai arloesol sy'n ddigarbon ac felly byddant yn dileu tiodi tanwydd tenantiaid. Felly, gall tenantiaid fyw mewn cartref sy'n darparu'r lefel briodol o wres i fyw bywyd iachach, lle nad oes angen dewis rhwng prynu bwyd neu wresogi'r tŷ.</p>	Iechyd Safonau byw	Mae'r Rhaglen Tai Arloesol wedi darparu cyllid grant ar gyfer 48 o ddatblygiadau yn y tair blynedd gyntaf. Ac, unwaith y cânt eu hadeiladu, caiff y tai hyn eu monitro er mwyn gweld pa mor dda maent yn perfformio go iawn.	Caiff y Rhaglen ei monitro, ei gwerthuso a'i gwella ar sail dreigl flynyddol o fis Ebrill/Mai 2020.	Caiff adroddiadau Monitro a Gwerthuso eu cyhoeddi bob blwyddyn o'r Rhaglen, gyda'r cyntaf yn cael ei gyhoeddi erbyn mis Mai 2020.

<b>Nod Hirdymor 1: Dileu anghydraddoldeb sy'n deillio o dloti.</b>					
Amcan Cydraddoldeb 1: Byddwn yn cynryd camau l lleihau'r risg o wynebu tiodi, gan wella canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf ac sy'n byw ar aelwydydd incwm isel.					
	Maes "A yw Cymru'n Decach?"	Canlyniad Disgwylliedig	Dyddiad Cyflawni Amcangyfrifedig	Sut y caiff cynnydd ei fesur?	
<p><b>Cam gweithredu 1.11:</b> Anelwn at ddarparu 20,000 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ystod tymor y Llywodraeth hon, gyda'r rhan fwyaf o'r rhain yn dai cymdeithasol. Byddwn yn darparu cyllid grant ar gyfer tai fforddiadwy drwy'r Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol.</p> <p>Rhaid i bob cynllun tai cymdeithasol gyrraedd Safonau Gofynion Ansawdd Datblygu, gan gynnwys Cartrefi Gydol Oes, er mwyn cael cyllid grant.</p>	<p>Safonau byw</p>	<p>20,000 o dai fforddiadwy ychwanegol</p>	<p>Eibyn mis Mawrth 2021</p>	<p>Drwy ystadegau swyddogol – cyhoeddir ystadegau ar dai fforddiadwy ym mis Tachwedd 2021</p>	
<p><b>Cam gweithredu 1.12:</b> Targedu cymorth blynyddoedd cynnar ar gyfer mwy o deuluoedd lle caiff yr effaith fwyaf, gan helpu i wella canlyniadau tymor hwy plant.</p>	<p>Iechyd Addysg</p>	<p>Llunio system fwy ataliol sy'n</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• helpu i fynd i'r afael â'r cynnydd o ran iechyd gwael</li> <li>• cyfrannu at helpu i reoli'r llif o blant sy'n cael gofal, a hymny'n ddiogel</li> <li>• ac sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran canlyniadau plant.</li> </ul>	<p>2029</p>	<p>Bydd y mesurau allweddol yn cynnwys nifer y plant dan 4 oed a gyrraedd yr drwy gymorth ym maes:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• llefeydd, iaith a Chyfathrebu</li> <li>• ymweliadau Iechyd Gwell</li> <li>• cymorth rhianta ychwanegol.</li> </ul> <p>Byddwn hefyd yn ystyried data ar nifer y teuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig sy'n defnyddio gwasanaethau.</p>	
<p><b>Cam gweithredu 1.13:</b> Cynyddu'r cyfleoedd i blant gael budd o brofiadau Addysg a Gofal Plentynod Cynnar o ansawdd uchel, gan helpu plant i ddatblygu a lleihau'r bwch o ran cyrhaeddiad.</p>	<p>Addysg</p>	<p>Datblygu a dechrau cymryd camau integredig mewn perthynas ag Addysg a Gofal Plentynod Cynnar yn unol â'n gwledigaeth 10 mlynedd, sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• darparu profiadau dysgu a gofal o ansawdd uchel i bob plentyn cyn ysgol</li> <li>• cynyddu hyfforddiant a sgiliau pob aelod o'r gweithlu gofal plant</li> <li>• darparu gwasanaethau addysg a gofal blynyddoedd cynnar mewn ffordd niwtral o ran darparwr.</li> </ul>	<p>2029</p>	<p>Bydd y prif fesurau yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyflwyno Fframwaith Ansawdd sy'n nodi disgwyliadau o ran Addysg a Gofal Plentynod Cynnar</li> <li>• nifer y lleoliadau ledled Cymru sy'n darparu Addysg a Gofal Plentynod Cynnar</li> <li>• nifer y plant sy'n defnyddio darpariaeth Addysg a Gofal Plentynod Cynnar</li> <li>• marciau arolygu lleoliadau Addysg a Gofal Plentynod Cynnar.</li> </ul>	

Nod Hirdymor 2: Mesurau amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol cryf a blaengar i bawb yng Nghymru					
Amcan Cydraddoldeb 2: Byddwn yn cymryd camau i nodi a defnyddio pob sbardun posibl i amddiffyn, atgyfnerthu a datblygu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.					
	Maes "A yw Cymru'n Decach?"	Canlyniad Disgwyliedig	Dyddiad Cyflawni Amcangyfrifedig	Sut y caiff cynnydd ei fesur?	
<b>Cam gweithredu 2.1:</b> Comisiynu ymchwil i opsiynau ehangach i atgyfnerthu a datblygu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.	Y 6 maes i gyd	Argymhellion i atgyfnerthu deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, gan ystyried deddfwriaeth bresennol a chyfluoedd i'w cysoni'n well.	Cyflwynir adroddiad ar yr ymchwil hon erbyn diwedd 2020. Unrhyw argymhellion o ran newidiadau deddfwriaethol i'w gwneud yn ystod tymor nesaf Senedd Cymru.	Goruchwyliaeth y Grŵp Llywio Atgyfnerthu a Datblygu Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Cyhoeddi ymchwil ddiwedd 2020.	
<b>Cam gweithredu 2.2:</b> Adolygu Rheoliadau Cymru (a nodir ar hyn o bryd o dan Reoliadau 2011) o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, er mwyn sicrhau eu bod wedi'u diweddarau, eu bod yn gymesur ac yn effeithiol.	Y 6 maes i gyd	Gwneud argymhellion lle mae cyfle i ddiwygio a gwella'r rheoliadau presennol.	Dechrau'r adolygiad yn 2020, gan gyflwyno adroddiad erbyn diwedd y flwyddyn galendir. Bydd angen i unrhyw newidiadau deddfwriaethol gael eu cyflwyno yn ystod tymor nesaf Senedd Cymru.	Goruchwyliaeth y Grŵp Llywio Atgyfnerthu a Datblygu Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.	
<b>Cam gweithredu 2.3:</b> Adolygu ymhellach dreftadau monitro ac adrodd ar gyfer Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, fel bod data ac adroddiadau ar gydraddoldeb gan gyrrif cyhoeddus yng Nghymru yn hawdd i'w canfod a'u deall ochr yn ochr â data cymaratwy.	Y 6 maes i gyd	Mwy o gydymffurfiaeth, cysondeb a thryloywder eto wrth gyhoeddi data ar gydraddoldeb (gan gynnwys data ar y bwlch cyflog rhyng y rhywiâu, ac o ran hil ac anabledd).	Fe'i cwblheir erbyn mis Rhagfyr 2020	Goruchwyliaeth y Grŵp Llywio Atgyfnerthu a Datblygu Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Gwella cysondeb ac ansawdd data a gyhoeddir.	
<b>Cam gweithredu 2.4:</b> Cyflwyno cod statudol a rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) diwygiedig gerbron Senedd Cymru yn ystod hydref 2020 er mwyn cefnogi'r gwaith o ddiwygio a thrawsnewid ADY cyn i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribwniyls Addysg 2018 ddod i rym ym mis Medi 2021.	Addysg	Gwell darpariaeth ledled Cymru i bob dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, ym mhob lleoliad iaith, a diwallu anghenion pob dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth newydd.	Cyflwyno'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol gerbron yn 2020. Rolau statudol yn cychwyn ym mis Ionawr 2021. Dechrau cyflwyno system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd yn raddol ym mis Medi 2021.	Cyflawni cerrig milltir: Tystiolaeth bellach gan Estyn ar y graddau y caiff newidiadau deddfwriaethol a newidiadau polisi ehangach eu hymgorffori, a sut maent yn effeithio ar ganiatadau dysgwyr.	
<b>Cam gweithredu 2.5:</b> Adolygu darpariaeth cwnsela statudol mewn ysgolion yn 2020-2021, gan ystyried modelau cyflwyno newydd, gan gynnwys y rhai ar gyfer plant iau nas cwmpesir eto gan y cynllun cwnsela er mwyn sicrhau bod anghenion llesiant pawb sydd angen cymorth emosïynol ac iechyd meddwl yn cael eu diwallu.	Addysg Iechyd	Mynediad cyfartal a chyson i bobl ifanc a gwmpesir gan y cynllun statudol presennol a sicrhau bod anghenion llesiant emosïynol pob dysgwyr (ni waeth ei oedran) yn cael eu diwallu mewn modd priodol ac amserol.	31/03/2021	Cyflawni cerrig milltir: Drwy adroddiadau awdurdodau lleol yn erbyn y cyfrifoldebau statudol presennol. Tystiolaeth o ymchwil annibynnol. Adroddiadau thematig Estyn.	
<b>Cam gweithredu 2.6:</b> Sefydlu model newydd i bobl ag anghenion dysgu ychwanegol gael archwiliad iechyd blynyddol mewn gofal sylfaenol.	Iechyd	Dylai sefydliadau GIG Cymru gyflawni neu ragori ar y targed perfformiad o 75% o'r boblogaeth a nodwyd. Y canlyniad hirdymor yw gweidd llai o farwolaethau cyn pryd y gellid bod wedi eu hosgoi ymhlith y boblogaeth hon.	31/03/2022	Drwy gyfarfodydd monitro perfformiad gyda sefydliadau'r GIG.	

<p><b>Nod Hirdymor 3 –Bydd anghenion a hawliau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig yn flaenllaw yn y broses o gynllunio a darparu pob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.</b></p> <p>Amcan Cydraddoldeb 3: Byddwn yn cymryd camau yn seiliedig ar wella canlyniadau a dileu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag gwireddu eu potensial. Byddwn yn ymgorffori'r Model Cymdeithasol o Anabledd er mwyn creu polisiau a gwasanaethau gwell.</p>				
Maes "A yw Cymru'n Decach?"	Canlyniad Disgwyliedig	Dyddiad Cyflawni Amcangyfrifedig	Sut y caiff cynnydd ei fesur?	
<p>Cyfranogiad</p> <p><b>Cam gweithredu 3.1:</b> Gan gydnabod y rhwystrau a brofir gan bobl anabl wrth iddynt ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, byddwn yn:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Darparu gwasanaeth clyweledol ar holl wasanaethau Traws Cymru</li> <li>2. Cymell awdurdodau lleol drwy deilarau ac amodau cymhorthdal i gyflwyno gwybodaeth ar ffurf glyweledol</li> <li>3. Datblygu atebion technolegol i wybodaeth glyweledol mewn safleoedd bws.</li> <li>4. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno rhaglen hyfforddi ar gydraddoldeb a hawliau dynol i weithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus.</li> </ol>	<p>Gwell hygyrchedd er mwyn i bobl anabl ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.</p>	<p>2020–2024</p>	<p>Arolygon defnyddwyr ac adborth.</p>	
<p>Unrhyw un neu bob un o'r meysydd, yn dibynnu ar y penderfyniad polisi a wneir.</p>	<p>Mae polisiau Llywodraeth Cymru yn ymgorffori syniadau atalioi tymor hwy, cydweithio, cynhwysiant ac integreiddio, ac maent yn canolbwyntio ar well dealltwriaeth o effaith ein polisiau ar anghenion pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.</p>	<p>Cwblheir adolygiad cynhwysfawr erbyn diwedd 2020, pan gaiff y canfyddiadau eu hystyried ac eir ati o'r newydd i gynnal camau datblygu, profi a gweithredu. Anelwn at sicrhau bod hyn yn rhan lawn o'r broses llunio polisiau erbyn 31/03/2023.</p>	<p>Califf treftiadau adrodd eu hystyried fel rhan o'r cynllun gweithredu.</p>	
<p><b>Cam gweithredu 3.2:</b> Byddwn yn creu diwylliant sy'n helpu Llywodraeth Cymru i fynd ati i lunio polisiau mewn ffordd fwy integredig, sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion, ac sy'n rhoi pwyslais ar feithrin dealltwriaeth o effaith bosibl y polisiau hynny ar bobl, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchoddedig, cymunedau, a'u hamgylcheddau, a'u hasesu.</p>				

Nod Hirdymor 3 –Bydd anghenion a hawliau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig yn flaenllaw yn y broses o gynllunio a darparu pob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.				
Amcan Cydraddoldeb 3: Byddwn yn cymryd camau yn seiliedig ar wella canlyniadau a dileu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag gwireddu eu potensial. Byddwn yn ymgorffori'r Model Cymdeithasol o Anabledd er mwyn creu polisiau a gwasanaethau gwell.				
Maes "A yw Cymru'n Decach?"	Canlyniad Disgwyliedig	Dyddiad Cyflawni Amcangyfrifedig	Sut y caiff cynnydd ei fesur?	
<p>Cyfranogiad</p> <p><b>Cam gweithredu 3.3:</b> Cymerir camau i wella hygyrchedd trafniadaeth, a'i diogelwch, i'r rhai â nodweddion gwarchoddedig, gyda phwyslais penodol ar ddileu rhwystrau i bobl anabl.</p> <p>1. Byddwn yn gweithio gyda grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchoddedig wrth ddatblygu Strategaeth Drafniadaeth Cymru er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys canlyniadau a pholisiau sy'n arwain at ddiwallu eu hanghenion a bodloni eu gofynion.</p> <p>2. Byddwn yn gweithio gyda grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchoddedig wrth ddatblygu'r Cynllun Trafniadaeth Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod ymyriadau trafniadaeth yng Nghymru yn cael eu cynllunio, eu dyfynio a'u cyflawni mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion ac yn bodloni eu gofynion.</p>	<p>Gwell hygyrchedd i bobl â nodweddion gwarchoddedig, gyda phwyslais penodol ar bobl anabl.</p>	<p>1. Strategaeth Drafniadaeth Cymru – dechrau 2021.</p> <p>2. Cynllun Trafniadaeth Cymru – dechrau 2022.</p>	<p>Adborth drwy grwpiau ffocws.</p>	
<p>Safonau byw</p> <p><b>Cam gweithredu 3.4:</b> Byddwn yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno prosiectau tai a chymorth arloesol ar gyfer pobl ifanc LGBTQ ac yn gwerthuso eu heffaith er mwyn mynd ati i ddatblygu gwasanaethau yn ehangach.</p>	<p>Sail dystiolaeth well mewn perthynas ag atebion tai a chymorth effeithiol ar gyfer pobl ifanc LGBTQ, er mwyn cefnogi a llywio'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau lleol.</p>	<p>Ebrill 2021</p>	<p>Gwerthusiad Cyhoeddedig</p>	



<p><b>Nod Hirdymor 3 –Bydd anghenion a hawliau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig yn flaenllaw yn y broses o gynllunio a darparu pob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.</b></p> <p>Amcan Cydraddoldeb 3: Byddwn yn cymryd camau yn seiliedig ar wella canlyniadau a dileu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag gwireddu eu potensial. Byddwn yn ymgorffori'r Model Cymdeithasol o Anabledd er mwyn creu polisiau a gwasanaethau gwell.</p>				
Maes "A yw Cymru'n Decach?"	Canlyniad Disgwyliedig	Dyddiad Cyflawni Amcangyfrifedig	Sut y caiff cynnydd ei fesur?	
<p>Iechyd</p> <p>Safonau byw</p> <p><b>Cam gweithredu 3.5:</b> Bydd Rheutu Doeth Cymru yn datblygu pecyn hyfforddi ar-lein ar gydraddoldebau i landlordiaid ac asiantau rheoli a fydd yn cynnwys modiwl ar ymwybyddiaeth o iechyd meddwl. Bydd yn cynnwys modiwl ar iechyd meddwl a fydd yn codi ymwybyddiaeth o sut i gael gafael ar gymorth i denantiaid sy'n wynebu problemau iechyd meddwl, ynghyd â gwybodaeth am hynny.</p> <p>Bydd elfen o ymwybyddiaeth iechyd meddwl yn yr hyfforddiant gorfodol a gyflawnir gan landlordiaid ac asiantau rheoli. Bydd yn cynnal ymgynghoriad i geisio barn landlordiaid ac asiantau am eu hanghenion hyfforddi. Bydd y wybodaeth hon yn helpu i ddatblygu hyfforddiant iechyd meddwl pwrpasol pellach.</p>	<p>Dylai'r broses ailrwydedu drwy Rheutu Doeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i bob landlord yn y sector cyhoeddus gwblhau modiwl ar iechyd meddwl er mwyn meithrin eu gwybodaeth am sut i gael gafael ar gymorth i denantiaid â phroblemau iechyd meddwl.</p>	<p>Rhagfyr 2020</p>	<p>Bydd Rheutu Doeth Cymru yn ein cynghori ynghylch datblygu deunyddiau hyfforddi ac yn rhoi'r ffigurau diweddaraf i ni ar niferoedd hyfforddi pan fydd ar waith.</p>	
<p>Pob un</p> <p><b>Cam gweithredu 3.6:</b> Bydd Cymru o Blaid Pobl Hŷn: Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio yn nodi'r camau a gymerwn i baratoi at y dyfodol. Er mwyn adlewyrchu natur amilhaenog heneiddio, rydym wedi gweithio gyda holl adrannau'r llywodraeth i fynd i'r afael â'r amrywiaeth o ffactorau sy'n dylanwadu ar y ffordd rydym yn heneiddio – o'n systemau iechyd a thrafnidiaeth i'r ffordd rydym yn cymdeithasu, yn gweithio ac yn gofalu am eraill.</p> <p>Nod y strategaeth yw newid y ffordd rydym yn meddwl am heneiddio. Drwy gydhabod a gwerthfawrogi cyfraniadau pob person hŷn yng Nghymru, anelwn at wrthod rhagfarn ar sail oedran a gweithio gyda phob cenhedlaeth i greu Cymru sydd o blaid pobl hŷn.</p>	<p>Ein Gweledigaeth yw Cymru sydd o blaid pobl hŷn sy'n cefnogi pobl o bob oedran i fyw a heneiddio'n dda. Rydym am greu Cymru lle mae pawb yn edrych ymlaen at fynd yn hŷn. Cymru lle gall unigolion gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, gan deimlo'n hyderus y bydd cymorth ar gael yn hawdd os oes ei angen. Cymru lle nad yw rhagfarn ar sail oedran yn cyfyngu ar botensial pobl hŷn nac ansawdd y gwasanaethau a gânt. Yn y pen draw, rydym am fod yn wlad sy'n dathlu oedran ac, yn unol ag Egwylldorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, yn wlad sy'n cynnal annibyniaeth, cyfranogiad, gofal, hunangyflawniad ac urddas pobl hŷn bob amser.</p>	<p>Hydref 2020</p>	<p>Mynegai Age Watch y DU</p>	

Nod Hirdymor 3 –Bydd anghenion a hawliau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig yn flaenllaw yn y broses o gynllunio a darparu pob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.					
Amcan Cydraddoldeb 3: Byddwn yn cymryd camau yn seiliedig ar wella canlyniadau a dileu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag gwireddu eu potensial. Byddwn yn ymgorffori'r Model Cymdeithasol o Anabledd er mwyn creu polisiau a gwasanaethau gwell.					
Maes "A yw Cymru'n Decach?"	Canlyniad Disgwyliedig	Dyddiad Cyflawni Amcangyfrifedig	Sut y caiff cynnydd ei fesur?		
<p><b>Cam gweithredu 3.7:</b> Bydd CAF/CASS Cymru yn datblygu ac yn gweithredu rhaglen Amrywiaeth a Chynhwysiant ddiwygiedig er mwyn casglu data a darparu tystiolaeth a ddefnyddir i wella'r broses o ddarparu gwasanaethau, yn enwedig gwaith achos, a datblygu'r gweithlu, gan gynnwys recriwtio.</p>	<p>Gwell dealltwriaeth o amrywiaeth o fewn CAF/CASS ac yn ymwneud â'i ddefnyddwyr gwasanaeth.</p> <p>Bydd ymarferwyr yn gallu gwneud defnydd mwy effeithiol o'r wybodaeth hon yn eu gwaith achos, gan eu galluogi i ddarparu gwasanaethau gwell a mwy penodol i blant a theuluoedd yn seiliedig ar eu hangenion a'u hamgylchiadau penodol. Gall y data hyn gael eu defnyddio i nodi gwelliannau i wasanaethau, megis gwneud ein wasanaethau yn fwy hygyrch a gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth.</p>	<p>Peilot yn ystod Chwarter 1 2020</p> <p>Cyflwyno'r rhaglen yn ystod Chwarter 2 2020</p> <p>Adolygiad yn ystod Chwarter 1 a 2 2021</p>	<p>Llunio Gwybodaeth Reoli am effeithiolrwydd ac ansawdd y broses o gasglu data.</p> <p>Darparu dadansoddiad o ddata amrywiaeth a chynhwysiant i Uwch-dim Arwain CAF/CASS ei adolygu a'i ddefnyddio mewn tîmau, er mwyn gwella gwasanaethau a datblygu staff.</p> <p>Mwy o dystiolaeth o ystyried amrywiaeth a chynhwysiant mewn gwaith achos.</p>		
<p><b>Cam gweithredu 3.8:</b> Byddwn yn ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig er mwyn gwella mynediad corfforol a deallusol i safleoedd Cadw. Bydd hyn yn cynnwys gwneud gwaith ymgysylltu a chynnal sesiynau grwpiau ffocws ar gam dylunio'r prosiect er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'r gwelliannau mynediad y mae pobl wir am eu gweld ar ein safleoedd.</p>	<p>Ceir gwell mynediad corfforol a deallusol ar safleoedd henebion Cadw.</p>	<p>Gweithredu ar unwaith a hyd nes y cwblheir y rhaglen buddsoddi cyfalaf bresennol y disgwylir iddi ddod i ben yn 2023.</p>	<p>Nifer a natur yr ymyriadau sy'n gwella mynediad i'r rhai â nodweddion gwarchoddedig sydd wedi'u cwblhau.</p>		
<p><b>Cam gweithredu 3.9:</b> Cyflwynir strategaeth gaffael newydd i Gymru a fydd yn blaenoriaethu gwaith caffael cyhoeddus seiliedig ar ganlyniadau yng Nghymru sy'n cwrddu gwerthoedd cymdeithasol fel blaenoriaeth allweddol. Fel rhan o'r strategaeth, byddwn yn cyhoeddi cyfres o ganllawiau a phhecynnau cymorth, a fydd yn ymestyn yr ymrwymiad i werthoedd cymdeithasol a amlinellir yn y strategaeth ac yn pennu llwybr clir ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau (gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchoddedig).</p>	<p>Cyhoeddi a chyflwyno'r strategaeth gyda chanllawiau a phhecynnau cymorth cysylltiedig.</p>	<p>Rhanddeiliaid Sector Cyhoeddus Cymru i gytuno ar y strategaeth – 2021</p>	<p>Cyflawni cerrig milltir. Meithrin dealltwriaeth drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol o ran argymhellion cytun y strategaeth.</p>		

<p><b>Nod Hirdymor 3 –Bydd anghenion a hawliau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig yn flaenllaw yn y broses o gynllunio a darparu pob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.</b></p> <p>Amcan Cydraddoldeb 3: Byddwn yn cymryd camau yn seiliedig ar wella canlyniadau a dileu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag gwireddu eu potensial. Byddwn yn ymgorffori'r Model Cymdeithasol o Anabledd er mwyn creu polisiau a gwasanaethau gwell.</p>					
Maes "A yw Cymru'n Decach?"	Canlyniad Disgwyliedig	Dyddiad Cyflawni Amcangyfrifedig	Sut y caiff cynnydd ei fesur?		
<p><b>Cam gweithredu 3.10:</b> Creu diwydiant twristiaeth mwy cynhwysol yng Nghymru drwy gyllido gwell mynediad i lety gwyliau ac atyniadau ymwelwyr.</p>	<p>Pobl â nodweddion gwarchoddedig i deimlo'n gyfforddus a'u bod yn cael croeso; buddsoddir mewn trefniadau mynediad, manau newid, toiledau anabl a gwella cyfleusterau eraill yn y sector. Mae'r ymrwymiad hwn yn cyd-fynd â'r ddogfen blaenoriaethau newydd ym maes Twristiaeth, sef "Croeso i Gymru 2020-25".</p>	<p>Drwy gydol oes y Cynllun gyda chanlyniadau ar gael bob blwyddyn</p>	<p>Caiff llwyddiant y mesurau hyn ei olrhain gan ein harolygon boddhad ymwelwyr a phreswylwyr rheolaidd; dulliau nodi hyder busnesau a thwristiaeth; y gwaith o roi cynllun grant "y Pethau Pwysig" Croeso Cymru ar waith; a chynlluniau cyllido eraill Croeso Cymru.</p>		
<p><b>Cam gweithredu 3.11:</b> Mae hyrwyddo cynhwysiant, cydraddoldeb a chyfle cyfartal yn flaenoriaeth allweddol o ran ein polisi prentisiaethau.</p> <p>Rydym wedi nodi nad oes cynrychiolaeth ddigonol ar gyfer rhai grwpiau gwarchoddedig a byddwn yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn.</p> <p>Cymerir camau i fynd i'r afael â'r ffaith na chaiff pobl anabl eu cynrychioli'n ddigonol o ran prentisiaethau.</p> <p>Rydym wedi cyhoeddi ein Cynllun Gweithredu ar Anabledd ar gyfer Prentisiaethau Cynhwysol. Mae'r cynllun hwn, a luniwyd ar y cyd â sefydliadau anabledd arbenigol ac a ardstylwyd ganddynt, yn nodi'r camau a gymerwn i ddileu'r rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl. Byddwn yn cymryd y nifer mawr o gamau ymarferol a nodir yn y cynllun hwn er mwyn dileu rhwystrau a chynyddu lefelau cyfranogiad pobl anabl.</p>	<p>Cynnydd blynyddol o ran nifer a chanran prentisiaid anabl.</p> <p>Dengys y data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer 2017-18 fod 5.6% o brentisiaid wedi nodi eu bod yn anabl, o gymharu â 3.4% yn 2013-14. Drwy'r camau yn ein Cynllun ar Anabledd rydym wedi herio ein darparwyr i wella lefelau cyfranogiad pobl anabl ar sail ganrannol flynyddol.</p>	<p>2020–2024</p>	<p>Byddwn yn monitro nifer y prentisiaid anabl ac yn adolygu effeithiolrwydd y camau rydym yn eu cymryd.</p>		
<p><b>Cam gweithredu 3.12:</b> Byddwn yn cefnogi pawb i feddu ar y cymbelliant, yr hyder a'r sgiliau i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth a dewis sut maent yn chwarae rhan yn ein byd mwyfwy digidol, ac yn gwneud y mwyaf ohono.</p>	<p>Drwy raglen gaiffaeledig 'Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Lles', gyda chyllideb flynyddol o £2 filiwn (a gyllidir ar y cyd gan gynhwysiant digidol ac iechyd), byddwn yn gweithio gyda sefydliadau o bob sector a all helpu i gyrraedd pobl sydd wedi'u halgáu'n ddigidol. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar wella galluoedd (sgiliau) digidol dinasyddion a staff iechyd a gofal, gan alluogi mwy o bobl i droi at ddigidol.</p>	<p>Mae'r rhaglen bresennol yn rhedeg rhwng 1 Gorffennaf 2019 a 30 Mehefin 2022, gyda'r opsiwn i'w hehangu am dair blynedd arall, yn dibynnu ar gyllid.</p>	<p>Drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru.</p>		

<b>Nod Hirdymor 3 –Bydd anghenion a hawliau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig yn flaenllaw yn y broses o gynllunio a darparu pob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.</b> Amcan Cydraddoldeb 3: Byddwn yn cymryd camau yn seiliedig ar wella canlyniadau a dileu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag gwireddu eu potensial. Byddwn yn ymgorffori'r Model Cymdeithasol o Anabledd er mwyn creu polisiau a gwasanaethau gwell.				
Maes "A yw Cymru'n Decach?"	Canlyniad Disgwyliedig	Dyddiad Cyflawni Amcangyfrifedig	Sut y caiff cynnydd ei fesur?	
<p>lechyd</p> <p><b>Cam gweithredu 3.13:</b> Bydd Llywodraeth Cymru (lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) ynghyd ag lechyd Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Ranbarthol Ewropeaidd Sefydliad lechyd y Byd yn datblygu Adroddiad ar Statws Cydraddoldeb o ran lechyd i Gymru, gan gynnwys dadansoddiadau o ddata a pholisiau, gydag opsiynau cysylltiedig i weithredu ar bolisiau a ategir gan fuddsoddiadau perthnasol i leihau anghydraddoldebau lechyd.</p>	<p>Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Adroddiad ar Statws Cydraddoldeb o ran lechyd ac yn ystyried y canfyddiadau er mwyn nodi camau pellach i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau lechyd.</p>	<p>Cyflawni cerrig milltir a chyhoeddi'r adroddiad erbyn mis Hydref 2020.</p>	<p>Cyflawni cerrig milltir a chyhoeddi'r adroddiad erbyn mis Hydref 2020.</p>	

<p><b>Nod hirdymor 4: Bydd Cymru yn arwain y byd o ran cydraddoldeb rhywiol. Mae Cymru sy'n gyfartal o ran rhywedd yn golygu rhanu pŵer, adnoddau a dylanwad yn gyfartal rhwng pob menyw, dyn a pherson annetaidd</b></p>				
<p>Amcan Cydraddoldeb 4: Byddwn yn cyflawni camau cyntaf y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Rhywiol ac yn parhau i weithredu er mwyn adrodd ar y bwch cyflog rhwng y rhywiau, gan ystyried yr hyn mae'r wybodaeth honno yn ei ddweud wrthym, ac annog sefydliadau cyhoeddus datganoleddig eraill yng Nghymru i wneud yr un peth.</p>				
Maes "A yw Cymru'n Decach?"	Canlyniad Disgwyliedig	Dyddiad Cyflawni Amcangyfrifedig	Sut y caiff cynnydd ei fesur?	
<p>Y 6 maes i gyd</p> <p><b>Cam gweithredu 4.1:</b> Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol erbyn mis Ebrill 2020. Rhaglen waith i reoli gweithgawch ffydiau gwaith a nodir, gwaith mewn meysydd polisi ar draws Llywodraeth Cymru a gwaith i ymgorffori argymhellion fel rhan o arferion cyflogwr Llywodraeth Cymru.</p> <p>Dwy fabwysiadu dull prif ffwrdd o ymddrin â pholisïau, gellir sicrhau bod y gwaith o ddatblygu polisïau yn symud i fodel ymgysylltu cyfranogol er mwyn datblygu polisïau mewn ffordd fwy cydweithredol ac ar y cyd â'r rhai a all sôn am eu profiadau go iawn.</p>	<p>Cyflawni'r argymhellion yn yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol a chymryd y camau sy'n feysydd â blaenoriaeth yn y cynllun gweithredu. Mae'r Adolygiad yn gynllun hirdymor i gyflawni newid a hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru, gan symud tuag at fodel canlyniadau cyfartal.</p>	<p>Bydd angen cynnal asesiadau blynyddol o gynnydd tan 2041.</p>	<p>Mesurir y gwaith o hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol o fewn y cynllun gweithredu ond hefyd yn wrthychol drwy ystadegau, ymchwil a dulliau eraill a ddefnyddir i graffu ar gydraddoldeb rhywiol yng Nghymru, megis y Grŵp Llywio Atgyfnerthu a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.</p>	
<p>Gwaith</p> <p><b>Cam gweithredu 4.2:</b> Ystyri'r camau i wella'r gwaith o adrodd ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau, ac o ran Hill ac Anabledd, yn yr adolygiad o Reoliadau Cymru (a nodir o dan Reoliadau 2011 ar hyn o bryd) o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'i dulliau adrodd.</p>	<p>Gwneud argymhellion lle mae cyfle i ddiwygio a gwella'r rheoliadau cyfredol.</p>	<p>Dechrau'r adolygiad yn 2020, gan gyflwyno adroddiad erbyn diwedd y flwyddyn galendr. Bydd angen i unrhyw newidiadau deddfwriaethol gael eu cyflwyno yn ystod tymor nesaf Senedd Cymru.</p>	<p>Goruchwyliaeth gan y Grŵp Llywio Atgyfnerthu a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.</p>	

Nod Hirdymor 4: Bydd Cymru yn arwain y byd o ran cydraddoldeb rhywiol. Mae Cymru sy'n gyfartal o ran rhywedd yn golygu rhanu pŵer, adnoddau a dylanwad yn gyfartal rhwng pob menyw, dyn a pherson anneuaid				
Amcan Cydraddoldeb 4: Byddwn yn cyflawni camau cyntaf y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Rhywiol ac yn parhau i weithredu er mwyn adrodd ar y bwch cyflog rhwng y rhywiau, gan ystyried yr hyn mae'r wybodaeth honno yn ei ddweud wrthym, ac annog setylliadau cyhoeddus datganoleddig eraill yng Nghymru i wneud yr un peth.				
	Maes "A yw Cymru'n Decach?"	Canlyniad Disgwyliedig	Dyddiad Cyflawni Amcangyfrifedig	Sut y caiff cynnydd ei fesur?
<p><b>Cam gweithredu 4.3:</b> Mae ein Cynllun Gwella'r Gyllideb a gyhoeddwyd yn nodi ein camau gweithredu parhaus i ddatblygu dull cyllidebu rhywedd yng Nghymru a'i gymhyso at weithgareddau datblygu polisiau a chyllidebu ym mhob Adran.</p> <p>Ymhlith y camau y bwriedir eu cynnyd mae datblygu dull cyllidebu rhywedd fel rhan o gynllun peilot Cyfrifon Dysgu Personol dwy flynedd, er mwyn asesu sut y gallai dull o'r fath helpu i nodi a deall effeithiau gwahanol posibl, gan gynnwys effeithiau nas bwriedir, er mwyn gwella'r ffordd rydym yn blaenoriaethu ac yn dyrannu adnoddau.</p> <p>Gwerthuso'r dull hwn er mwyn llywio'r ffordd rydym yn ystyried y broses o'i roi ar waith yn ehangach, ac adolygu canfyddiadau'r gwerthusiad o gynllun peilot y Cyfrifon Dysgu Personol er mwyn llywio'r gwaith o ehangu'r dull cyllidebu rhywedd i feysydd polisi eraill, gan anelu at integreiddio'r dewis ddull wrth ystyried yr asesiad o'r effaith ar y gyllideb yn ehangach.</p> <p>Yn amodol ar ganfyddiadau camau gweithredu cynharach, ehangu'r cynllun peilot cyllidebu rhywedd ymhellach ar draws portffolios mewn ffordd sy'n gyson â'r uchelgeisiau a nodwyd mewn ymateb i argymhellion yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol yn 2019.</p>	Y 6 maes i gyd	<p>Disgwyliwn ddatblygu dull Cymreig o gyllidebu rhywedd fel rhan o'n hasesiad o effeithiau penderfyniadau ynghylch y gyllideb.</p> <p>Bydd hyn yn darparu adolygiad beirniadol o'r ffordd mae dyraniadau cyllidebol yn effeithio ar gyfleoedd economaidd a chymdeithasol dynion a menywod, gan alluogi Gweinidogion i feithrin gwell dealltwriaeth o effaith bosibl gwahanol ddevisiadau ar wahanol ryweddau, gan eu galluogi i wneud penderfyniadau mwy gwybodol a chyflawni canlyniadau mwy cyfartal.</p>	2024	Bydd y canlyniad yn dibynnu ar ganfyddiadau'r cynllun peilot cyllidebu rhywedd a'r gweithgareddau gwerthuso a nodir yng Nghynllun Gwella'r Gyllideb.
<p><b>Cam gweithredu 4.4:</b> Drwy Raglen Galluogrwydd Sgiliau Masnachol a Chaffael Llywodraeth Cymru, byddwn yn ystyried sut i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau yn y profesiwn caffael.</p>	Addysg Gwaith	Mwy o ferched yn cael eu hyfforddi fel gweithwyr caffael profesiynol yng Nghymru, gyda'r nod hirdymor o sicrhau cydraddoldeb rhywiol yn y profesiwn.	Cwblhau'r adolygiad erbyn mis Rhagfyr 2022. Cyflawni'r argymhellion a dderbyniwyd yn barhaus.	Monitro'r cydbwysedd rhwng y rhywiau drwy'r nifer sy'n ennill cymwysterau a mesur hynny yn erbyn y llinell sylfaen.

<p><b>Nod Hirdymor 4: Bydd Cymru yn arwain y byd o ran cydraddoldeb rhywiol. Mae Cymru sy'n gyfartal o ran rhywedd yn golygu rhannu pŵer, adnoddau a dylanwad yn gyfartal rhwng pob menyw, dyn a pherson anneuaid</b></p>				
<p>Amcan Cydraddoldeb 4: Byddwn yn cyflawni camau cyntaf y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Rhywiol ac yn parhau i weithredu er mwyn adrodd ar y bwch cyflog rhwng y rhywiau, gan ystyried yr hyn mae'r wybodaeth honno yn ei ddweud wrthym, ac annog setylliadau cyhoeddus datganoleddig eraill yng Nghymru i wneud yr un peth.</p>				
Maes "A yw Cymru'n Decach?"	Canlyniad Disgwylliedig	Dyddiad Cyflawni Amcangyfrifedig	Sut y caiff cynnydd ei fesur?	
<p><b>Cam gweithredu 4.5:</b> Fel rhan o waith Women in STEM (WiSTEM), byddwn yn gwneud ymchwil i lywio ein dealltwriaeth o'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ym maes cyflogaeth. Fel rhan o'r gwaith hwn, caiff dau is-grŵp eu creu a fydd yn ystyried materion cydraddoldeb rhywiol, yn benodol ym maes addysg a diwydiant. Disgwyllir adroddiad terfynol erbyn 31/03/2020. Byddwn yn dadansoddi'r adroddiad hwn ac yn gwneud argymhellion i Fwrdd WiSTEM. Wrth wneud hynny byddwn yn ystyried nodweddion gwarchoddedig eraill, gan gynnwys rhyngblethedd.</p>	<p>Bydd yr adroddiad terfynol yn cynhyrchu argymhellion a gyflwynir i Fwrdd WiSTEM i'w hystyried.</p>	<p>31/03/2020 i gael yr adroddiad terfynol. Nid yw'r cyfarfod i drafod yr adroddiad wedi'i drefnu eto.</p>	<p>Eir i'r afael â'r argymhellion a dderbynir a'u dyddiadau cwblhau targed unigol pan fyddant yn hysbys. Yna bydd y rhain yn ffurfio ymrwymiadau cydraddoldeb pellach i'w cynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.</p>	
<p><b>Cam gweithredu 4.6:</b> Cynyddu cyfleoedd cyfartal gweithwyr rhan-amser er mwyn iddynt ennill y cymwysterau gofal plant a chwarae cydnabyddedig i weithio yn y sector gofal plant drwy'r rhaglen Brentisiaeth.</p>	<p>Bydd hyn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwella cyfleoedd gwaith unigolion, a merched yn arbennig, o ystyried y gyfran uwch o ferched sy'n gweithio oriau rhan-amser</li> <li>• rhoi cyfleoedd i weithwyr rhan-amser yn y sector gynyddu eu sgiliau a'u galluoedd</li> <li>• cynyddu'r mynediad i hyfforddiant y tu hwnt i'r hyn a oedd ar gael yn flaenorol o dan y Rhaglen Brentisiaeth brif ffwd</li> </ul>	<p>2024</p>	<p>Bydd y prif fesurau yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• nifer y gweithwyr rhan-amser sy'n dilyn cyrsiau gofal plant a chwarae</li> <li>• nifer y gweithwyr rhan-amser sy'n ennill cymwysterau o dan y Rhaglen Brentisiaeth</li> <li>• nifer yr hyfforddeion sy'n cael swyddi yn y sector gofal plant</li> <li>• nifer y teuluoedd sy'n manteisio ar y Cynnig Gofal Plant i Gymru, gan edrych yn benodol ar nifer y teuluoedd un rhiant a nifer y mamau</li> <li>• canran y rhieni sy'n manteisio ar y Cynnig Gofal Plant i Gymru sy'n nodi bod gofal plant wedi'i ariannu yn ffactor o ran dychwelyd i'r gwaith neu weithio mwy o oriau.</li> </ul>	

Nod Hirdymor 5 - Dileu gwahaniaethu, erledigaeth, difrio, aflonyddwch, troseddau casineb a bwlio sy'n seiliedig ar nodweddion gwarchoddedig.					
Amcan Cydraddoldeb 5: Byddwn yn gweithredu i atal gwahaniaethu, erledigaeth, aflonyddwch, difrio, troseddau casineb a/neu fwlio yn erbyn pobl o ganlyniad i'w nodweddion gwarchoddedig. Byddwn yn sicrhau bod dioddefwyr yn gallu cael gafael ar gyngor a chymorth er mwyn eu helpu i fyw heb ofn a diogelu eu llesiant.					
Maes "A yw Cymru'n Decach?"	Canlyniad Disgwylliedig	Dyddiad Cyflawni Amcangyfrifedig	Sut y caiff cynnydd ei fesur?		
<b>Cam gweithredu 5.1:</b> Byddwn yn ariannu Canolfan Genedlaethol Adrodd am Droseddau Casineb a Chymorth er mwyn sicrhau bod pawb sy'n dioddef trosedd casineb yn cael cyngor a chymorth.	Cyflawnder a diogelwch Safonau byw	Caiff pawb sy'n dioddef trosedd casineb a atgyfeirir at Ganolfan Genedlaethol Adrodd am Droseddau Casineb a Chymorth gymorth dynodedig.	Fe'i harfennir tan 2021 ar hyn o bryd	Monitro'r contract bob chwarter.	
<b>Cam gweithredu 5.2:</b> Cynnull Bwrdd Cyflawnder Troseddol Troseddau Casineb Cymru er mwyn dwyn ynghyd yr holl bartneriaid allweddol sy'n gweithio i leihau a lliniaru troseddau casineb ledled Cymru.	Cyflawnder a diogelwch Safonau byw	Bydd cyfraddau cofnodi troseddau casineb yn parhau i gynyddu wrth i ddioddefwyr ddeall sut i roi gwybod am droseddau casineb ac wrth i heddluoedd eu hadnabod a'u cofnodi'n well. Bydd cyfraddau boddhad dioddefwyr yn gwellu am eu bod yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt.	2020–2024	Bydd cyfarfodydd chwarterol Bwrdd Cyflawnder Troseddol Troseddau Casineb Cymru yn monitro cynnydd. Bydd ystadegau troseddau casineb blynyddol y Swyddfa Gartref yn dangos unrhyw gynnydd mewn troseddau casineb a gofmodir ar gyfer yr holl nodweddion gwarchoddedig. Bydd yr arolwg troseddau cenedlaethol yn awgrymu'r bwlch rhwng y rhai sy'n profi trosedd a'r rhai sy'n rhoi gwybod amdani. Bydd partneriaid yn monitro cyfraddau boddhad dioddefwyr er mwyn sicrhau bod eu gwasanaeth yn effeithiol.	
<b>Cam gweithredu 5.3:</b> Datblygu cyngor a chanllawiau i glybiau chwaraeon a grwpiau cymunedol ar gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel, a'u cyfeirio'n glir at fynny.	Cyflawnder a diogelwch Cyfranogiad Iechyd	Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu ym myd y campau.	2020–2021	Gweithio gyda Chwaraeon Cymru i fonitro a gwerthuso'r canllawiau.	
<b>Cam gweithredu 5.4:</b> Anelu at leihau nifer yr achosion o droseddau casineb drwy fuddsoddi mewn ymgyrch gyfathrebu ar droseddau casineb, Grant Troseddau Casineb Cymunedau Lleiaffrol a phrosiect Troseddau Casineb mewn Ysgolion.	Cyflawnder a diogelwch Safonau byw	Datblygu ymgyrch gyfathrebu ledled Cymru sy'n ceisio atal troseddau casineb. Caiff wyth sefydliad o'r trydydd sector eu hariannu gan Grant Troseddau Casineb Cymunedau Lleiaffrol i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb a cheisio eu lleihau dros amser. Bydd prosiect Troseddau Casineb mewn Ysgolion yn darparu hyfforddiant ar sgiliau meddwl yn feiniadol mewn mwy na 100 o ysgolion ledled Cymru er mwyn sicrhau bod modd i gamwybodaeth neu iaith casineb gael ei hadnabod a'i herio.	2020–2021	Bydd prosiectau troseddau casineb yn casglu adborth gan gyfranogwyr er mwyn gweld a oes gwell dealltwriaeth o droseddau casineb. Caiff llwyddiant yr ymgyrch gyfathrebu ei asesu drwy ei chyrrhaeddol, yn ogystal â monitro galwadau i Ganolfan Genedlaethol Adrodd am Droseddau Casineb a Chymorth er mwyn gweld a yw'n arwain at fwy o atgyfeiriadau.	



Nod Hirdymor 5 - Dileu gwahaniaethu, erledigaeth, difrio, aflonyddwch, troseddau casineb a bwlio sy'n seiliedig ar nodweddion gwarchoddedig.					
Amcan Cydraddoldeb 5: Byddwn yn gweithredu i atal gwahaniaethu, erledigaeth, aflonyddwch, difrio, troseddau casineb a/neu fwlio yn erbyn pobl o ganlyniad i'w nodweddion gwarchoddedig. Byddwn yn sicrhau bod dioddetwyr yn gallu cael gafael ar gyngor a chymorth er mwyn eu helpu i fyw heb ofn a diogelu eu llesiant.					
Maes "A yw Cymru'n Decach?"	Canlyniad Disgwyliedig	Dyddiad Cyflawni Amcangyfrifedig	Sut y caiff cynnydd ei fesur?		
<p><b>Cyflawnder a diogelwch</b> Safonau byw</p>	<p>Drwy ddangos arweinyddiaeth strategol ac ymrwymiad parhaus i herio VAWDASV, byddwn yn parhau i ddangos na wnaiff Cymru oddef VAWDASV, a bod Cymru yn rhywle lle gall pawb fyw heb ofn mewn cymunedau diogel, cyfartal a di-drais.</p>	2021	<p>Byddwn yn drafftio'r cynllun cyflawni trawslywodraethol â cherrig milltir ac amserlenni a gaiff ei fonitro bob chwarter. Bydd y Strategaeth Genedlaethol hefyd yn cynnwys Dangosyddion Cenedlaethol a fydd hefyd yn mesur cynnydd ledled Cymru.</p>		
<p><b>Addysg</b> Cyflawnder a Diogelwch Cyfranogiad</p>	<p>Bydd gan bob ysgol bolisi a strategaeth gwrth-fwlio erbyn mis Medi 2020, a chaiff digwyddiadau eu cofnodi a'u monitro. Bydd hyn yn creu amgylchedd mwy diogel i ddysgwyr.</p>	Gweithredir y Canllawiau mewn ysgolion erbyn mis Medi 2020.	<p>Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu hyn y broses o weithredu'r canllawiau newydd ar ôl y flwyddyn academaidd lawn gyntaf y'u gweithredir.</p>		
<p><b>Safonau byw</b></p>	<p>Lleihau nifer yr achosion lle bydd asiantau gosod/landlordiaid yn rhoi'r ffôn i lawr ar ddarpar denantiaid pan gaiff cyflwr iechyd meddwl a/neu weithwr cymorth ei grybwyll (fel y nodir ar hyn o bryd gan weithwyr cymorth).</p>	01/12/2020	<p>Comisiynu ymchwil ym mis Ebrill 2020. Byddwn yn gwerthuso ac yn sefydlu'r camau nesaf ar ôl i'r ymchwil gael ei chwblhau. Bydd camau gweithredu yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodir gan yr ymchwil.</p>		
<p><b>Cam gweithredu 5.5:</b> Byddwn yn adolygu ac yn cyhoeddi strategaeth genedlaethol newydd ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV), gan amlinellu sut y byddwn yn gweithredu i atal trais o'r fath, a diogelu a chefnogi unrhyw un sy'n ei brofi.</p> <p><b>Cam gweithredu 5.6:</b> Byddwn yn parhau i roi arweiniad ac adnoddau i ysgolion ar sut y gallant herio bwlio a darparu amgylchedd mwy diogel i'w dygwyr, yn enwedig y rhai â nodweddion gwarchoddedig. Mae'r canllawiau statudol yn nodi disgwyliad Llywodraeth Cymru y bydd pob ysgol yn cofnodi pob achos o fwlio gan amlinellu mathau penodol o fwlio. Mae disgwyl i ysgolion ac awdurdodau lleol ddefnyddio'r data i lywio eu strategaethau a'u polisiau gwrth-fwlio.</p> <p><b>Cam gweithredu 5.7:</b> Byddwn yn archwilio ac yn mynd i'r afael ag achosion o wahaniaethu yn erbyn pobl â phroblemau iechyd meddwl sy'n ceisio rhentu tai yn y sector preifat a chymnal eu tenantiaeth.</p>					

Nod hirdymor 6: Cymru o gymunedau cydlynus sy'n gydnerth, yn deg ac yn gyfartal.				
Amcan Cydraddoldeb 6: Byddwn yn adelladu ar ein polisiau a'n hymyriadau presennol ac yn datblygu fframwaith monitro i fesur hynt y gwaith o gyflawni cydlyniant cymunedol a meithrin cysylltiadau da rhwng pob grŵp.				
Maes "A yw Cymru'n Decach?"	Canlyniad Disgwyliedig	Dyddiad Cyflawni Amcangyfrifedig	Sut y caiff cynnydd ei fesur?	
<p>Addysg</p> <p><b>Cam gweithredu 6.1:</b> Gwneud Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, ac Addysg Grefyddol, yn elfennau gorffodol o'r Cwricwlwm newydd o 2022 ymlaen. Datblygu, drwy gydgyntyrchu, ganllawiau i gefnogi Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, gan sicrhau bod cymunedau yn cael eu cynnwys.</p> <p>I ddatblygu'r gwaith hwn, rydym wedi sefydlu Grŵp Cynnwys Cymunedau Ffydd a Phobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (IBAME). Bydd y grŵp hwn yn sicrhau bod y bobl/sefydliadau hynny y mae'r newid yn effeithio arnynt fwyaf yn gallu helpu i lywio'r gwaith o gyflwyno elfennau Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ac Addysg Grefyddol y cwricwlwm newydd.</p> <p>Bydd y grŵp yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru diros y ddwy flynedd nesaf wrth i ni symud tuag at gyflwyno'r cwricwlwm newydd.</p> <p>Bydd y grŵp hwn hefyd yn rhyngweithio â'r Gweithgor Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a gaiff ei sefydlu i ddatblygu Canllawiau Addysg Rhyw a Pherthnasoedd.</p>	<p>Mae gan bob dysgwyr fynediad at y cwricwlwm llawn a gallant ddatblygu mewn perthynas â'r pedwar diben. Bwrddir i'r pedwar diben hyn ddatblygu plant a phobl ifanc fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yn ddsygywr ucheigeisio, galluog, sy'n barod i ddsygu drwy gydol eu hoes</li> <li>• yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith</li> <li>• yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd</li> <li>• yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.</li> </ul> <p>Caiff cynnwys y meysydd gorffodol hyn o'r cwricwlwm eu deall a'u cefnogi gan gymunedau.</p>	<p>Paratoir canllawiau erbyn dechrau 2021. Cyflwynir y cwricwlwm ar gyfer Blwyddyn 7 neu'n is o fis Medi 2022, ac ar gyfer Blwyddyn 8 y flwyddyn ganlynol ac ati.</p>	<p>Cyflawni cerrig milltir. Dealltwriaeth o farn y cyhoedd drwy ymgysylltu â'r gymuned. Tystiolaeth gan Estyn yn y dyfodol ynghylch pa mor dda mae'r cwricwlwm newydd yn galluogi dysgwyr i gyflawni'r dibenion.</p>	
<p>Safonau byw Cyfranogiad</p>	<p>Bydd yn ofynnol i'r sefydliad llwyddiannus weithio gyda'r sector rheutu preifat i ddatblygu dulliau newydd o gynnwys tenantiaid.</p> <p>Gweithio'n agos gyda'r sefydliad hwn wrth ddatblygu polisi Sector Rheutu Preifat</p>	<p>Rhagfyr 2020</p>	<p>Cyfarfodydd chwarterol â Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad, Tenantiaid Cymru (TPAS) y mae'n rhaid iddo ddarparu adroddiadau ar gynnydd yn erbyn camau gweithredu cyfûn.</p>	
<p><b>Cam gweithredu 6.2:</b> Dylai gwasanaethau gael eu cynllunio a'u darparu gydag arbenigedd a mewnwleidiad tenantiaid sy'n byw gyda phroblemau iechyd meddwl yn y sector rheutu preifat.</p> <p>Yn ystod haf 2019, lanswyd proses grant-gystadleuol a oedd yn cynnwys cynigion ar gyfer prosiect cynnwys tenantiaid:</p> <p><i>"Y prif ofyniad o ran yr ymgeiswyr oedd eu bod yn meddu ar brofiad a gwybodaeth fanwl am gynnwys a chefnogi tenantiaid yng Nghymru, ynghyd â cheisio barn tenantiaid am wasanaeth eu landlord yn y sector tai cymdeithasol a'r sector rheutu preifat."</i></p>				

Nod hirdymor 6: Cymru o gymunedau cydlynus sy'n gydnerth, yn deg ac yn gyfartal.					
Amcan Cydraddoldeb 6: Byddwn yn adeiladu ar ein polisiau a'n hymyriadau presennol ac yn datblygu fframwaith monitro i fesur hynt y gwaith o gyflawni cydlyniant cymunedol a meithrin cysylltiadau da rhwng pob grŵp.					
Maes "A yw Cymru'n Decach?"	Canlyniad Disgwylliedig	Dyddiad Cyflawni Amcangyfrifedig	Sut y caiff cynnydd ei fesur?		
<b>Cam gweithredu 6.3:</b> Datblygu cyfres newydd o egwyddorion cydlyniant cymunedol. Bydd y rhain yn gwella dealltwriaeth o gydlyniant cymunedol, yn ogystal â sicrhau yr eir ati i'w sefydlu a i atgyfnerthu mewn modd cyson.	Cyfranogiad  Gwell dealltwriaeth o gydlyniant cymunedol. Mwy o gysondeb wrth i bartneriaid greu Cymru o gymunedau cydlynus. Meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau yn ein cymunedau.	Cyflwyno'r egwyddorion yn 2020. Mwy o ddealltwriaeth a chydlyniant rhwng 2020 a 2024.	Monitro cwestiynau diogelwch cymunedol Arolwg Cenedlaethol Cymru.  Archwiliwr system newydd o fonitro cydlyniant, gan ddefnyddio Dangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Dangosyddion Integreiddio'r Swyddfa Gartref.		
<b>Cam gweithredu 6.4:</b> Cynnal ein rhwydwaith o Gydgyssylltwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol ledled Cymru. Byddwn yn creu cyfleoedd i rannu arfer da, gwybodaeth, profiad a ffyrdd o weithio.	Cyfranogiad  Monitro ac ymateb i densiynau yn y gymuned. Meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau yn ein cymunedau. Creu cysylltiad allweddol rhwng cymunedau, llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru.	2020–2021	Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol yn cyflwyno adroddiadau chwarterol ar gynnydd lleol tuag at gydlyniant. Adroddiadau monitro tensiwn rheolaidd gan gydgysylltwyr.		
<b>Cam gweithredu 6.5:</b> Bydd Cadw yn creu swydd newydd ar gyfer swyddog digwyddiadau cymunedol, ac yn datblygu ac yn cyhoeddi fframwaith trefnadaeth gymunedol er mwyn hwyluso defnydd mwy effeithiol o'n henebion fel y gallant sbarduno cynhwysiant cymunedol.	Cyfranogiad  Caiff henebion Cadw eu dathlu gan gymunedau cyfagos ac fe'u defnyddir ar gyfer gweithgareddau trefnadaeth gymunedol, ac i gymig cyfleoedd i gymryd rhan a gwirfoddoli.	31/12/2024	Llunio dogfennaeth berthnasol, gan gynnwys Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer rhaglenni y mae Llywodraeth Cymru yn dylanwadu arnynt neu'n eu rheoli'n uniongyrchol.		

<b>Nod hirdymor 7: Gall pawb yng Nghymru gyfranogi mewn bywyd gwleidyddol, cyhoeddus a bywyd pob dydd.</b>				
Amcan Cydraddoldeb 7: Erbyn 2024, byddwn wedi cynyddu amrywiaeth y rheini sy'n gwneud penderfyniadau mewn bywyd cyhoeddus a phenodiadau cyhoeddus, gan nodi meysydd lle mae angen cymyd rhagor o gamau gweithredu er mwyn sicrhau cydbwysedd gwell o amrywiaeth ymysg y rheini sy'n gwneud penderfyniadau ac ymchwilio i ddulliau o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb.				
Maes "A yw Cymru'n Decach?"	Canlyniad Disgwyliedig	Dyddiad Cyflawni Amcangyfrifedig	Sut y caiff cynnydd ei fesur?	
<p><b>Cam gweithredu 7.1:</b> Creu llyf cadarn o benodiadau cyhoeddus. Sicrhau bod gennym brosesau asesu agored a chadarn, a newydd o bosibl. Sicrhau bod aelodau'r bwrdd yn gwbl wybodus ac yn ymwybodol o gydraddoldeb ac amrywiaeth, yn enwedig o ran eu rôl. Atgyfnerthu arweinyddiaeth mewn perthynas ag amrywiaeth a chynhwysiant. Casglu a dadansoddi data (yn enwedig data ar amrywiaeth) yn well.</p>	<p>Cyfranogiad</p> <p>Gwaith</p>	<p>Sicrhau bod mwy o ferched ar Fyrddau Cyhoeddus yn barhaus a chynyddu nifer y bobl anabl, pobl BAME, a phobl eraill nas cynrychiolir yn ddigonol a benodir i Fyrddau Cyhoeddus fel bod Byrddau yn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir ganddynt a, thrwy hynny, yn gwella'r broses o wneud penderfyniadau.</p>	<p>Gwaith i ddechrau yn 2020 (dechreuodd hyn gyda lansiad y Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus: Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru ym mis Chwefror 2020).</p>	<p>Drwy ddadansoddi data ar amrywiaeth.</p>
<p><b>Cam gweithredu 7.2:</b> Cam Dau Datblygu Amrywiaeth mewn Democratiaeth sy'n anelu at godi ymwybyddiaeth, gwerth ac apêl rôl y cynghorydd yn y gymuned drwy amrywiaeth o gamau gweithredu. Rhaglen sy'n anelu at sicrhau mwy o ymgylltu â democratiaeth leol.</p>	<p>Cyfranogiad</p>	<p>Bydd cam dau o'r rhaglen yn nodi cyfres o gamau gweithredu sy'n anelu at gynyddu amrywiaeth cynghorau ledled Cymru. Caiff camau, mesurau ac amserleni penodol eu hychwanegu unwaith y cyfnewid ar y rhaglen.</p>	<p>31/03/2020</p>	<p>Sefydlu rhaglen. Fel rhan o'r rhaglen honno cyfnewid ar fesurau canlyniadau ar gyfer camau gweithredu.</p>
<p><b>Cam gweithredu 7.3:</b> Sefydlu cronfa i helpu ymgeiswyr anabl i sefyll etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022.</p>	<p>Cyfranogiad</p>	<p>Bydd y gronfa yn darparu cymorth i dalu costau ariannol ychwanegol sy'n gysylltiedig â nam person anabl a fyddai fel arall yn atal rhywun rhag ceisio rôl etholedig. Drwy ddarparu'r cymorth hwn ein nod yw cynyddu lefel cyfranogiad unigolion anabl o fewn democratiaeth leol a, thrwy wneud hynny, greu mwy o fodolau rôl yn y gymuned ac ehangu cyfraniad y grŵp hwn at fywyd cymunedol. Byddwn yn eithrio treuliau sy'n gysylltiedig ag anabledd, gan gynnwys y rhai y darperir ar eu cyfer drwy'r gronfa o derfyn gwariant yr ymgeisydd.</p>	<p>31/03/2021</p>	<p>Sefydlu'r cynllun a'r defnydd a wneir o'r cymorth wedyn.</p>
<p><b>Cam gweithredu 7.4:</b> Gweithlu addysgu amrywiol – Gweithio gyda sefydliadau addysg uwch, darparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon a chngor y gweithlu addysg a rhanddeiliaid eraill er mwyn cael tystiolaeth, nodi ffactorau cyd-destunol, a diffinio polisiâu a blaenoriaethau fel rhan o gynllun gweithredu erbyn haf 2020.</p>	<p>Gwaith</p> <p>Addysg</p>	<p>Drwy weithredu ar y cyd â phartneriaid, rydym yn anelu at wneud cynnydd da yn ebyrn her syweddol sicrhau gweithlu addysgu amrywiol, mewn ffordd lle mae'r athrawon yn ein hysgoliol yn cynrychioli'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.</p>	<p>01/08/2020</p>	<p>Adolygiad o lenyddiaeth a chasglu gwybodaeth genedlaethol ar garlam er mwyn nodi data, partneriaethau a strategaethau y gallwn eu defnyddio i ddiffinio amcanion polisi a dangosyddion perfformiad allweddol i effeithio ar recriwtio fesul ardal dros amser.</p>
<p><b>Cam gweithredu 7.5:</b> Cynorthwyo trefnwyr digwyddiadau BAME a LGBTQ i ddatblygu eu digwyddiadau i'r pwynt lle gallent fod yn gymwys i fodloni meini prawf cyllido Digwyddiadau Mawr.</p>	<p>Cyfranogiad</p>	<p>Uned Digwyddiadau Mawr i ymgylltu'n uniongyrchol â sefydliadau perthnasol gyda'r nod o helpu i "feithrin capasiti" ar draws y sector. Mae'r ymrwymiad hwn yn cyd-fynd â'r ddogfen blaenoriaethau twristiaeth newydd "Croeso i Gymru 2020-25".</p>	<p>2020-2023</p>	<p>Cynnal gweithdai blynyddol a gwahodd grwpiau perthnasol i'r Gynhadledd Digwyddiadau Mawr yn 2020 lle caiff meini prawf cyllido presennol yr Uned Digwyddiadau Mawr eu hystyried a'u trafod.</p>

<p><b>Nod Hirdymor 8: Bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn arwain y ffordd fel sefydliadau a chyflogwyr cynhwysol ac amrywiol sy'n dangos esiampl.</b></p>				
<p>Amcan Cydraddoldeb 8: Erbyn 2024 bydd Llywodraeth Cymru yn gyflogwr sy'n dangos esiampl, gan gynyddu amrywiaeth fel a ganlyn: mynd i'r afael yn arbennig â thangynychiolaeth pobl anabl a phobl o leiafrifoedd ethnig ar bob lefel o'r sefydliad, a thangynychiolaeth merched ar lefelau uwch; dileu rhwystrau; a chefnogi prentisiaid o gymunedau amrywiol; a galluogi staff o bob cefndir i gyflawni eu potensial, gan sicrhau cyfle cyfartal i bawb.</p>				
Cam gweithredu 8.1: Cyflawni camau gweithredu allweddol ac ymrwymïadau pennod Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategaeth Pobl 2020-2025 Llywodraeth Cymru.	Maes "A yw Cymru'n Decach?"	Canlyniad Disgwylliedig	Dyddiad Cyflawni Amcangyfrifedig	Sut y caiff cynnydd ei fesur?
	Gwaith	<p><b>Cynyddu Amrywiaeth:</b></p> <p>Targedu gwaith allgymorth ar gyfer ein cynlluniau prentisiaeth, yn enwedig darpar ymgeiswyr sydd ag anabledd ac o leiafrifoedd ethnig er mwyn cynyddu amrywiaeth ein gweithlu i gynycholioli ein cymunedau.</p> <p>Cyflawni targedau amrywiaeth ar gyfer recriwtio allanol a charu ymlaen mewn gyrfâ yn fewnol a nodir yn Strategaeth Pobl 2020-2025, craffu ar ddata amrywiaeth a mabwysiadu arferion gorau drwy gwblhau meincnodau cydraddoldeb.</p> <p><b>Dileu Rhwystrau:</b></p> <p>Defnyddio'r Model Cymdeithasol o Anabledd a'i iaith er mwyn ategu ein holl bolisiau ac arferion cyflogaeth, a'n dulliau recriwtio, gan ddileu'r rhwystrau sy'n anablu pobl â namau.</p> <p>Gwella ein dealltwriaeth o unrhyw rwystrau a wynebir gan ferched ar raddau SEO, G7 a G6 a all eu hatal rhag dyheu am ymuno â'r Uwch-wasanaeth Sifil, neu wneud cais i ymuno ag ef, er mwyn i ni allu targedu camau gweithredu'n briodol wrth gymryd camau cytûn o'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol ar yr un pryd.</p> <p>Cefnogi staff o bob cefndir i gyflawni eu potensial, gan sicrhau cyfle cyfartal i bawb.</p> <p>Datblygu a chymal cyfathrebu parhaus drwy ein hymgyrch Gadewch i Ni Siarad am Barch er mwyn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer staff â nodweddion gwarchoddedig, a hyrwyddo arweinyddiaeth gynhwysol, gan ddechrau drwy ymgorffori dealltwriaeth a defnyddio'r modelau cymdeithasol o anabledd yn y sefydliad.</p> <p>Cyflwyno rhaglenni datblygu gan sicrhau bod y cyfleoedd hyn yn hygyrch ac yn cael eu cyflwyno'n benodol i ddiwallu anghenion grwpiau penodol e.e. Rhaglen Datblygu BAME.</p>	31/03/2024 – adolygiad blynyddol	Mesurir drwy ddefnyddio data amrywiaeth o ran cyflogaeth a recriwtio a'r camau allweddol a'r hyn i'w gyflawni yn erbyn y cynllun gweithredu. Adroddir gan gymheiriad a'r Arolwg Cyflogaeth. Pennir targedau newydd ar gyfer 2020–2024 a chytunir arnynt mewn perthynas â recriwtio, cyflogaeth a datblygiad staff.

Nod Hirdymor 8: Bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn arwain y ffordd fel sefydliadau a chyflogwyr cynhwysol ac amrywiol sy'n dangos esiampl.					
Amcan Cydraddoldeb 8: Erbyn 2024 bydd Llywodraeth Cymru yn gyflogwr sy'n dangos esiampl, gan gynyddu amrywiaeth fel a ganlyn: mynd i'r afael yn arbennig â thangynychiolaeth pobl anabl a phobl o leiafrifoedd ethnig ar bob lefel o'r sefydliad, a thangynychiolaeth merched ar lefelau uwch; dileu rhwystrau; a chefnogi prentisiaid o gymunedau amrywiol; a galluogi staff o bob cefndir i gyflawni eu potensial, gan sicrhau cyfle cyfartal i bawb.					
Maes "A yw Cymru'n Decach?"	Canlyniad Disgwylliedig	Dyddiad Cyflawni Amcangyfrifedig	Sut y caiff cynnydd ei fesur?		
<p>Gwaith</p> <p>Cyfiawnder a Diogelwch Personol</p>	<p>Drwy ddangos arweinyddiaeth drwy roi cymorth tryloyw i ddiodeffwyr VAWDASV, anelwn at ddangos i gyflogwyr eraill fod dull gweithredu cynhwysol yn helpu i gadw talent ac yn cynnal gweithlu cynhyrchiol.</p>	31/03/2021	<p><b>Dangosydd Llesiant Cenedlaethol 20:</b> Y ganran o'r bobl sy'n dweud eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn yn eu gwaith.</p> <p><b>Dangosydd Llesiant Cenedlaethol 21:</b> Y ganran o'r bobl 16-64 oed sydd mewn gwaith yng Nghymru.</p> <p><b>Dangosydd Llesiant Cenedlaethol 25:</b> Y ganran o'r bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio.</p>		
<p>lechyd</p> <p>Cyfranogiad</p> <p>Gwaith</p>	<p>Mae cynllun gweithredu bwydo ar y fron Cymru i wella maeth babanod yng Nghymru yn cynnwys nifer o gamau a gaiff eu llywio gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Drwy gefnogi camau gweithredu o fewn Lywodraeth Cymru, cyfrannir at gyflawni'r cynllun cenedlaethol, yn benodol drwy gynorthwyo a galluogi merched sy'n bwydo ar y fron i barnau i wneud hynny wrth weithio ar safleoedd Lywodraeth Cymru neu ymweidd â nhw.</p>	31/12/2020	Yr adran adnoddau dynol i archwilio polisiau, cyfleusterau a negeseuon cyhoeddus. Cynyddu nifer y staff ac ymwelwyr a all fwydo ar y fron/tynnu llaeth ar safleoedd Lywodraeth Cymru.		
<p>lechyd</p> <p>Addysg</p> <p>Cyfranogiad</p>	<p>Llythrau cylch gwaith i gyrrif a noddir gan Lywodraeth Cymru i amlinellu'r gofyniad hwn a chael eu hatgynferthu yn y cyfarfodydd monitro chwarterol rhwng swyddogion Lywodraeth Cymru a'r gyrrif.</p> <p>Llai o absenoldeb oherwydd salwch a gorbryder yn y gweithle.</p>	2020-2024	Rheolwyr llinell i fonitro a noddi swyddogion mewn cyfarfodydd adolygu rheolaidd â'r gyrrif hyn.		
<p>Addysg</p> <p>Gwaith</p>	<p>Er i'r afael â'r diffyg difrifol o ran capasiti yn ardaloedd mwyaf diffreintiedig Cymru.</p> <p>Bydd y rhaglen beilot yn ysgogi swyddi posibl ac yn meithrin sgiliau pobl ifanc.</p>	<p>Gwaith paratoi i ddechrau yng nghanol 2020-2021</p> <p>Disgwyllir i leoliadau ddechrau yn 2021 a gorffen yn 2024.</p>	<p>Cytuno ar y rhaglen beilot a'i chyflwyno.</p> <p>Nifer y prentisiaethau sydd ar gael/a gymerir</p>		

# Atodiad 2

## Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad – Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2020–2024

Cafwyd 63 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan unigolion/ sefydliadau, a chafwyd ymatebion drwy weithdai Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid. Gellir categorio'r 63 o ymatebion fel a ganlyn:

Mathau o ymatebwyr i'r ymgynghoriad	Nifer yr ymatebwyr
Unigolyn	15
Sector cyhoeddus	21
Y trydydd sector	23
Arall	4

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad. Mae'n anelu at roi trosolwg o hyd a lled yr ymatebion, ac at roi syniad o'r materion a godwyd amlaf.

## Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'r Amcanion Cydraddoldeb drafft arfaethedig ym Mhennod 5?

Roedd 47 o'r 63 o ymatebion unigol (heb gynnwys yr ymatebion o'r gweithdai) yn cytuno â'r Amcanion Cydraddoldeb drafft arfaethedig, gyda 3 yn cytuno'n rhannol, 4 ddim yn cytuno a 9 heb nodi a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno.

Nodwyd y themâu cyffredin canlynol o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn:

- Croesawyd y cyfeiriad at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Galwyd am i gamau gweithredu CAMPUS gael eu hychwanegu.
- Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen i bobl hŷn gael eu cynnwys.
- Croesawyd rhyngblethedd.
- Galwyd am i'r holl nodweddion gwarchoddedig gael eu cynnwys.
- Awgrymwyd bod angen cytundeb/ cysondeb ar draws portffolios, ynghyd ag arweinyddiaeth a gweithredu unedig ar draws Llywodraeth Cymru.
- Galwodd rhai ymatebwyr am i'r amcanion ganolbwyntio ar ganlyniadau a bod yn uchelgeisiol.
- Croesawyd gosod nodau/ amcanion tymor hwy.
- Awgrymwyd bod angen cynnal ymgynghoriad ar y cynllun gweithredu terfynol.

Wrth ateb y cwestiwn hwn cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr yn uniongyrchol at y Nodau/ Amcanion Hirdymor:

### Nod Hirdymor 1/Amcan 1

- Croesawyd y ffocws ar dlodi a chychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.
- Nodwyd bod angen i bobl sydd eisoes yn byw ar aelwydydd incwm isel, nid dim ond y rhai sydd 'mewn perygl', gael eu cynnwys.
- Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid newid y geiriad i 'Dileu anghydraddoldeb er mwyn lleihau tlodi'.

- Galwyd am wybodaeth am ganlyniadau.
- Cyfeiriwyd at yr angen i fod yn uchelgeisiol ac i ymrwymo i ddileu tlodi.
- Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at y ffaith nad oes Gweinidog ar dlodi.
- Awgrymwyd nad oedd tlodi yn achosi anghydraddoldeb.

### Nod Hirdymor 2/Amcan 2

- Croesawyd comisiynu ymchwil.
- Galwyd am fanylion mwy penodol.
- Croesawyd yr ymrwymiad i fesurau amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol cryf a blaengar.
- Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen i'r nod/amcan fod yn gryfach.
- Croesawyd y camau gweithredu yn sgil Brexit.
- Nodwyd bod angen ystyried pobl hŷn.
- Cefnogwyd corffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yn gyfraith yng Nghymru.

### Nod Hirdymor 3/Amcan 3

- Awgrymwyd nad yw'r nod/amcan hwn yn mynd yn ddigon pell – h.y. mae eisoes yn ofynnol yn ôl y gyfraith i weithredu Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a dyletswyddau cydraddoldeb Cymru.
- Nodwyd bod angen sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.
- Cyfeiriwyd at y ffaith nad yw rhai gwasanaethau cyhoeddus wedi'u datganoli.
- Croesawyd y cyfeiriad at y Model Cymdeithasol o Anabledd, er i rai ymatebwyr awgrymu bod angen gwneud mwy i'w hyrwyddo.

### Nod Hirdymor 4/Amcan 4

- Galwodd rhai ymatebwyr am i'r nod/amcan gael ei atgyfnerthu a bod yn fwy heriol – h.y. newid 'dechrau cyflawni' i 'byddwn yn cyflawni'.



- Codwyd pryder am roi mwy o flaenoriaeth i rywedd na nodweddion gwarchoddedig eraill.
- Awgrymwyd bod angen sicrhau cydraddoldeb rhywiol i bob menyw, gan gynnwys menywod hŷn a menywod nad ydynt yn wyn.

#### **Nod Hirdymor 5/Amcan 5**

- Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen gwneud mwy na dim ond cynnig cyngor a chymorth – h.y. bod yn rhagweithiol, atal camdriniaeth rhag digwydd, targedu cyflawnwyr, bod rôl addysg yn bwysig.
- Nodwyd bod angen cydnabod cam-drin pobl hŷn.

#### **Nod Hirdymor 6/Amcan 6**

- Awgrymwyd na fydd fframwaith monitro yn helpu i gyflawni'r nod.
- Galwyd am fwy o uchelgais, a mynd ymhellach.
- Cydnabuwyd pwysigrwydd gwaith Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol.

#### **Nod Hirdymor 7/Amcan 7**

- Galwodd rhai ymatebwyr am i dargedau a chamau gweithredu gael eu hychwanegu.
- Awgrymwyd bod angen i'r amcan gynnwys cymryd rhan mewn bywyd pob dydd.
- Cyfeiriwyd at yr angen i fod yn fwy penodol o ran sut beth yw cynnydd.
- Galwyd am fwy o gymorth i ymgeiswyr etholiadol anabl.

#### **Nod Hirdymor 8/Amcan 8**

- Cyfeiriwyd at yr angen am fwy o fanylion am fesurau canlyniadau.
- Galwodd rhai ymatebwyr am i ganfyddiadau'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol gael eu hystyried.
- Awgrymwyd bod angen i broses recriwtio Llywodraeth Cymru fod yn fwy hygyrch i bobl anabl.

### **Cwestiwn 2: Yn eich barn chi, a oes unrhyw feysydd o anghydraddoldeb nad yw'r Amcanion Cydraddoldeb drafft yn mynd i'r afael â nhw ac a oedd yn arbennig o arwyddocaol i chi?**

Nododd ymatebwyr nifer o feysydd anghydraddoldeb gwahanol nad oedd yr Amcanion Cydraddoldeb drafft yn mynd i'r afael â nhw yn eu barn nhw, ac a oedd yn arbennig o bwysig. **Ymhlith y meysydd anghydraddoldeb cyffredin a nodwyd roedd:**

- Hil
- Y Gymraeg
- Pobl anabl
- Gofalwyr
- Darparu gwasanaethau hygyrch
- Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches
- Tlodi
- Camdriniaeth – yn seiliedig ar hunaniaeth; nad yw'n seiliedig ar hunaniaeth; Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)
- Cyflogaeth/gweithle
- Crefydd
- Addysg – ymwybyddiaeth/dealltwriaeth o egwyddorion/materion cydraddoldeb a hawliau dynol
- Tai a digartrefedd
- Iechyd meddwl – mynediad at wasanaethau
- Troseddau casineb
- Pobl hŷn
- Casglu data
- Rhywedd
- Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

### **Cwestiwn 3: A oes unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg / materion / tystiolaeth mewn perthynas ag anghydraddoldeb yng Nghymru y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt yn eich barn chi?**

Nododd ymatebwyr nifer o dueddiadau sy'n dod i'r amlwg/ materion/tystiolaeth mewn perthynas ag anghydraddoldeb yng Nghymru y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt yn eu barn nhw. **Ymhlith y themâu cyffredin a nodwyd yn yr ymatebion roedd:**

- Hil/hiliaeth/aflonyddu rhywiol mewn sefydliadau addysg uwch
- Y Gymraeg
- Cynnydd mewn troseddau casineb
- Gwahaniaethu ar sail anabled
- Mynediad at wasanaethau
- Gofalwyr
- Anfantais economaidd-gymdeithasol
- Crefydd
- Poblogaeth/gweithlu sy'n heneiddio
- Brexit
- VAWDASV
- Tai
- Rhyngblethedd
- Cyni a diwygio lles
- Defnyddio Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Pobl hŷn
- Tlodi a digartrefedd
- Iechyd meddwl
- Rhywedd



#### Cwestiwn 4: Beth yw eich barn ynghylch y dull o ddatblygu Amcanion Cydraddoldeb sy'n cyfrannu at nodau dyheadol yn y tymor hwy?

O ran eu barn ynghylch y dull o ddatblygu Amcanion Cydraddoldeb sy'n cyfrannu at nodau dyheadol yn y tymor hwy, roedd 41 o'r 63 o ymatebion (heb gynnwys ymatebion y gweithdai) yn cytuno â'r dull, gyda 3 yn cytuno'n rhannol, 1 ddim yn cytuno a 18 na wnaethant nodi a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno.

#### Ymhlith y themâu cyffredin a nodwyd yn yr ymatebion roedd:

- Croesawyd y cysylltiad â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Awgrymwyd y byddai'r dull yn arwain at newidiadau mwy cynaliadwy ac yn ei gwneud hi'n bosibl i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hirsefydledig.
- Croesawodd rhai ymatebwyr y cynnig i hyrwyddo cydweithredu â sefydliadau eraill.
- Galwyd am ychwanegu camau gweithredu, amserlenni a chanlyniadau.
- Awgrymwyd bod angen adolygu nodau hirdymor a mesur cynnydd.
- Galwyd am i hyn gael ei weld ar draws Llywodraeth Cymru.
- Codwyd pryderon am gyllid/adnoddau.
- Nododd rhai ymatebwyr fod angen bod yn realistig.

#### Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o ddatblygu nifer bach o gamau gweithredu allweddol o dan bob Amcan, sy'n gysylltiedig â'r 6 maes yn A yw Cymru'n Decach? 2018, fel enghreifftiau i ddangos sut y caiff yr amcanion eu cyflawni?

O ran a oeddent yn cytuno â'r dull arfaethedig o ddatblygu nifer bach o gamau gweithredu allweddol o dan bob Amcan, sy'n gysylltiedig â'r 6 maes yn A yw Cymru'n Decach? 2018, fel enghreifftiau i ddangos sut y caiff yr amcanion eu cyflawni, roedd 31 o'r 63 o ymatebion (heb gynnwys ymatebion y gweithdai) yn cytuno â'r dull, gyda 6 yn cytuno'n rhannol, 9 ddim yn cytuno a 17 ddim yn nodi'n benodol a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno.

#### Ymhlith y themâu cyffredin a nodwyd yn yr ymatebion roedd:

- Awgrymwyd bod y dull yn sicrhau ffocws.
- Croesawyd dull seiliedig ar dystiolaeth.
- Galwyd am fwy o wybodaeth am y camau i'w cynnwys, a galwodd rhai ymatebwyr am ymgynghoriad pellach ar y camau arfaethedig.
- Awgrymwyd na ddylid dilyn y meysydd yn gaeth a cholli camau gweithredu da.

#### Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno â'r bwriad i barhau i sicrhau bod cyllid Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn cyd-fynd â'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol?

O ran y bwriad i barhau i sicrhau bod cyllid Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn cyd-fynd â'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol, roedd 41 o'r 63 o ymatebion (heb gynnwys ymatebion y gweithdai) yn cytuno â'r dull, gyda 2 yn cytuno'n rhannol, 2 ddim yn cytuno a 18 ddim yn nodi'n benodol a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno.

#### Ymhlith y themâu cyffredin a nodwyd yn yr ymatebion roedd:

- Awgrymwyd bod y dull yn sicrhau bod meysydd â blaenoriaeth yn cael cyllid ac yn hyrwyddo camau cydweithredol, unedig, cydgysylltiedig.
- Codwyd pryder am y ffaith bod y cyllid yn dechrau pan oedd etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ar fin cael eu cynnal.
- Ni nodwyd unrhyw gyllid ar gyfer sefydliadau pobl hŷn.
- Nododd rhai ymatebwyr fod angen sicrhau nad dim ond yr un hen sefydliadau mawr a oedd yn cael cyllid.
- Codwyd pryder nad oedd sefydliadau a oedd yn cael eu hariannu yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.
- Awgrymwyd y dylai holl adrannau Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol a'r gyllideb.
- Nodwyd bod angen sicrhau tegwch wrth ddyrannu cyllid ledled Cymru.

**Cwestiwn 7: Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gallem adeiladu momentwm a chynyddu unrhyw effeithiau cadarnhaol, neu lle rydych o'r farn y gallai fod effeithiau negyddol, beth y gallwn ei wneud i'w lliniaru?**

Rhannodd nifer o ymatebwyr eu barn am effeithiau'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol arfaethedig ar y Gymraeg.

**Ymhlith y themâu cyffredin a nodwyd yn yr ymatebion roedd:**

- Yr angen i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn yr un ffordd.
- Awgrymwyd bod angen cyfeirio at y Gymraeg yn fwy.
- Galwodd rhai ymatebwyr am i'r Gymraeg fod yn nodwedd warchoddedig.
- Dylai cynnwys y Gymraeg yn y cynllun wella'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.
- Awgrymwyd bod yr agendâu polisi ar gyfer cydraddoldeb a'r Gymraeg yn cyd-fynd yn dda.
- Nododd rhai ymatebwyr fod angen gweld y camau gweithredu er mwyn ymateb yn llawn.
- Codwyd pryder am bobl nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf a'r angen i roi cyfleoedd i'r garfan hon ddysgu Cymraeg.
- Cyfeiriwyd at yr angen am gyllid ychwanegol.
- Awgrymwyd bod angen sicrhau nad yw hyrwyddo'r Gymraeg yn cael effaith negyddol ar wasanaethau/cyflogwyr.
- Galwyd am Aseiad Effaith.

**Cwestiwn 8: Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol arfaethedig gael eu llunio neu eu newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Darparodd sawl ymatebydd sylwadau pellach ar y Gymraeg wrth ateb y cwestiwn hwn.

**Ymhlith y themâu cyffredin a nodwyd yn yr ymatebion roedd:**

- Cyfeiriwyd at yr angen i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.
- Awgrymwyd bod angen sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg a dyletswyddau statudol.
- Nododd rhai ymatebwyr nad oedd angen newid yr amcanion er mwyn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.
- Galwyd am fwy o gyfeiriadau at y Gymraeg yn y cynllun.
- Awgrymwyd bod angen i'r amcanion fod yn ddwyieithog

**Cwestiwn 9: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.**

Nododd ymatebwyr nifer o faterion cysylltiedig wrth ateb y cwestiwn hwn.

**Ymhlith y themâu cyffredin a nodwyd yn yr ymatebion roedd:**

- Pobl anabl a chyflogaeth.
- Tlodi.
- Galwyd am allu rhoi sylwadau/craffu ar y camau i'w hychwanegu at y cynllun.
- Nodwyd bod angen sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithredu ar faterion â blaenoriaeth/yn gweithio i gefnogi'r amcanion.
- Galwodd rhai ymatebwyr am i'r cynllun fod yn un CAMPUS.
- Crybwyllwyd cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a bod angen canllawiau.
- Awgrymwyd bod angen cyfeirio at iechyd a llesiant yn y cynllun.
- Galwodd rhai ymatebwyr am i'r cynllun gefnogi cynnydd tuag at y nodau Llesiant i gyd, nid dau yn unig.

